
Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol

Rhagfyr 2024



Mae’r ddogfen hon yn grynodeb o’r gwaith a wnaed o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o’r Senedd ac o lywodraeth. Mae’n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a’r cyrff cyhoeddus sy’n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo’r pŵer i gyflwyno adroddiadau i’r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna’r sefydliadau hynny o’u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella’r defnydd hwnnw.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru ac yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â’i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi’i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori’r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n endidau cyfreithiol ar wahân gyda’u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau’r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori’r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2024

Cewch ailddefnyddio’r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio’n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint
dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o’n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu’n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

# Cynnwys

## Adroddiad cryno

Rhagair yr Archwilydd Cyffredinol 4

Crynodeb gweithredo 6

Ffeithiau allweddol 7

Negeseuon allweddol 8

## Adroddiad manwl

Beth mae cynaliadwyedd ariannol yn ei olygu? 11

Ar y cyfan, canfuom fod gan y rhan fwyaf o gynghorau drefniadau i ategu eu cynaliadwyedd ariannol byrdymor ond nad ydynt wedi datblygu eu cynlluniau tymor hwy yn llawn eto 13

Canfyddiadau cenedlaethol 17

Cyd-destun ehangach y DU 21

Beth mae hyn yn ei olygu i gynghorau yn y dyfodol? 27

Trosolwg o sefyllfaoedd ariannol a chyllid cynghorau 30

Cynaliadwyedd ariannol ar dudalen 49

Ein hadroddiadau lleol 50

Canfyddiadau adroddiadau lleol 51

## Atodiadau

1 Ymagwedd a dulliau archwilio 63

# Adroddiad cryno

## Rhagair yr Archwilydd Cyffredinol

### Mae sefyllfa ariannol llywodraeth leol yn anghynaliadwy dros y tymor canolig oni chymerir camau gweithredu

1 O'm safbwynt fel archwilydd cyffredinol ar gyfer y rhan fwyaf o sector cyhoeddus Cymru, rwy'n gweld y gwasanaethau gwerthfawr y mae'r sector llywodraeth leol yn eu darparu'n ddyddiol i bobl Cymru – casgliadau gwastraff, llyfrgelloedd, iechyd yr amgylchedd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol a llawer mwy. A hwythau'n hollbwysig i ddinasyddion, mae'r gwasanaethau hyn dan bwysau cynyddol o ganlyniad i bwysau ariannol, demograffig a chymdeithasol.

2 Hyd yma, yn wahanol i Loegr, mae holl gynghorau Cymru wedi gallu mantoli eu cyllidebau ac ni fu angen i'r un ohonynt gyflwyno adroddiad Adran 114.[1] Mae hynny'n tystio i ymrwymiad swyddogion a chynghorwyr ledled Cymru a'r penderfyniadau anodd a wnaed eisoes. Fodd bynnag, wrth i effaith gronnus cyfyngiadau ariannol gynyddu, ni allwn dybio bod dyfodol y sector yn gynaliadwy. Mae'r sefyllfa'n fregus ac yn sensitif i'r ffactorau cymhleth, sy'n cystadlu â'i gilydd, sy'n effeithio ar sefyllfa ariannol cynghorau.

3 Fy rôl i yw amlygu'r risgiau hyn a darparu sicrwydd ynghylch y trefniadau y mae cynghorau wedi'u gwneud. I'r perwyl hwnnw, rwyf wedi adolygu'r camau y mae cynghorau'n eu cymryd a'r trefniadau sydd ganddynt ar waith i ategu eu cynaliadwyedd ariannol eu hunain.

4 Dengys ein gwaith, er bod cynghorau fel rheol yn gwybod beth yw maint y bylchau yn eu cyllid, nad oes ganddynt gynlluniau tymor hwy i fynd i'r afael â hwy. Mae hyn yn eu gadael dan fygythiad oherwydd penderfyniadau byrdymor nad ydynt o bosibl yn rhoi gwerth am arian nac er lles cymunedau lleol yn y tymor hwy. Mae hynny'n groes i ddisgwyliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n gwneud meddwl am yr hirdymor yn ganolog i gynllunio sefydliadol.

1 Cyhoeddir adroddiad Adran 114 i'r Cyngor Llawn lle mae Prif Swyddog Cyllid (Swyddog Adran 151) cyngor yn credu bod y cyngor wedi gwario (neu wedi ymrwymo i wario) mwy na chyfanswm yr adnoddau sydd ar gael iddo. Yna mae'n gosod terfynau gwariant ar y cyngor.

5 Mae ein harchwiliad hefyd yn amlygu pwysigrwydd llywodraethu da i gynaliadwyedd ariannol. Mae hynny'n golygu bod ag arweinyddiaeth strategol eglur, dealltwriaeth fanwl a gyflëir yn dda am y sefyllfa ariannol, a goruchwyliaeth a chydweithio effeithiol gan gynghorwyr etholedig. Mewn amgylchedd o'r fath, mae gwerth am arian yn fwy tebygol o fod yn ganolog i brosesau penderfynu. Rwy'n adleisio barn un o'm cymheiriaid, Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol y DU, y dylai hybu cynhyrchiant a gwneud i arian cyhoeddus weithio'n galetach fod yn ffocysau i'r sector cyhoeddus cyfan.[2]

6 Fe bwysleisiais yr holl faterion hyn yn fy natganiad yn gynharach yn y flwyddyn - O ymdrin â heriau wrth iddynt godi i ddiogelu at y dyfodol – yr her i wasanaethau cyhoeddus Cymru | Archwilio Cymru. Yn y datganiad hwnnw, fe ddisgrifiais themâu cyffredin yr wyf yn eu gweld dro ar ôl tro o'n gwaith ar draws y sector cyhoeddus. Pe byddid yn mynd i'r afael â hwy, gallai sefydliadau cyhoeddus gyflawni mwy â'r hyn y maent eisoes yn ei wario ac felly helpu i newid o ymdrin yn ddi-baid â heriau uniongyrchol heddiw wrth iddynt godi i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

7 Mae rhai cynghorau mewn sefyllfa well na'i gilydd i ddygymod â'r heriau ariannol sydd o'u blaenau. Ond, o ystyried maint y bylchau mewn cyllid a ragamcanir ar gyfer llywodraeth leol dros y blynyddoedd sydd i ddod, bydd angen i'r holl gynghorau barhau â chyflymder y newid neu ei gynyddu er mwyn iddynt ymateb i natur frys a maint yr her. Bydd angen i Lywodraeth Cymru gynorthwyo'r sector i ymateb i'r her hon hefyd.

8 O'i fynegi'n syml, mae llywodraeth leol yn ariannol anghynaliadwy dros y tymor canolig oni chymerir camau gweithredu, gan y rhai sy'n cefnogi'r sector ac yn rhyngweithio ag ef yn ogystal â chynghorau eu hunain. Er ei bod yn neges anodd, rwy'n gobeithio bod yr adroddiad hwn yn helpu cynghorau, Llywodraeth Cymru a phawb sy'n ymrwymedig i'r sector, i osod llwybr at ddyfodol cynaliadwy.

2 Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, Here's how to make public money work harder, Medi 2024

# Crynodeb gweithredol

## Cyd-destun

9 Dros wanwyn a haf 2024, fe wnaethom fwrw golwg ar gynaliadwyedd ariannol pob un o'r 22 o gynghorau yng Nghymru. Fe wnaethom ganolbwyntio ar:


- y strategaethau i ategu cynaliadwyedd ariannol hirdymor cynghorau;
- dealltwriaeth cynghorau am eu sefyllfa ariannol; a
- threfniadau adrodd cynghorau i ategu goruchwyliaeth reolaidd ar eu cynaliadwyedd ariannol.

10 Mae'r adroddiad hwn yn darparu peth cyd-destun ar gyfer yr heriau ariannol a wynebir gan gynghorau ac yn crynhoi ein canfyddiadau allweddol o'r gwaith hwn. Rydym hefyd wedi myfyrio ynghylch beth y mae hyn i gyd yn ei olygu ar gyfer cynaliadwyedd ariannol cynghorau yn y dyfodol ac yn darparu rhai myfyrdodau ynglŷn â sut y gellid cryfhau cynaliadwyedd ariannol cynghorau yn y dyfodol.

# Ffeithiau allweddol

Isod ceir rhai ffeithiau allweddol sy'n dangos sut y mae'r pwysau ariannol ar sefyllfa ariannol cynghorau wedi tyfu dros amser

**3.3%** (£3 biliwn) – y twf mewn termau real yng ngwariant gros cynghorau rhwng 2008-09 a 2023-24.



**94%**, **27%**, a **31%** – y twf mewn termau real yng ngwariant cynghorau ar ofal cymdeithasol plant, oedolion, a phobl hŷn rhwng 2008-09 a 2023-24

**-62%** – y gostyngiad mewn termau real yng ngwariant cynghorau ar ddiogelwch cymunedol rhwng 2008-09 a 2022-23



**-16.6%** – y gostyngiad mewn termau real mewn cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy nad ydynt wedi'u diogelu'n gyfreithiol rhwng 2022-23 a 2023-24[3]



**79%** – y cynnydd mewn plant sy'n derbyn gofal gan gynghorau Cymru rhwng 2003 a 2023




**41%** – y cynnydd yng ngwariant ysgolion ar Anghenion Dysgu Ychwanegol rhwng 2015-16 a 2022-23



**-4.3%** – y gostyngiad yn y cyllid mewn termau real ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru rhwng 2025-26 a 2027-28 a ragwelir gan Brifysgol Caerdydd

3 Cymhariaeth rhwng yr 19 o gynghorau a oedd wedi darparu cyfrifon drafft ar gyfer 2023-24 ar adeg drafftio'r adroddiad yw hyn. Nid yw'n cynnwys CBS Blaenau Gwent, CS Ddinbych a CBS Merthyr Tudful.

# Negeseuon allweddol

Isod ceir crynodeb o'r negeseuon allweddol a nodir yn yr adroddiad hwn.

**Ceir risgiau sylweddol i gynaliadwyedd sefyllfa ariannol llywodraeth leol sy'n debygol o gynyddu dros y tymor canolig heb gamau gweithredu i'w lliniaru**

11 O ystyried maint y pwysau o ran cyllid sy'n wynebu llywodraeth leol, mae ar lawer o gynghorau angen newid sylweddol yn eu dull i symud y tu hwnt i bennu cyllideb a fantolir yn flynyddol i gyflawni gwerth am arian a chynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig.

**Mae'r sector cyhoeddus wedi wynebu cyfnod o bwysau ariannol digynsail ers 2008.**

12 Mewn termau real fe ostyngodd gwariant gan gynghorau rhwng 2008 a 2020. Fe gododd ychydig yn ystod y pandemig ond mae'r twf ar y cyfan mewn cyllid ar gyfer cynghorau'n dal i fod ymhell islaw'r gyfradd twf cyn 2008. Mae hyn wedi golygu bod angen i gynghorau wneud dewisiadau anodd trwy gydol y cyfnod hwn.

**Mae'r pwysau ar gyllid llywodraeth leol dros y cyfnod hwn wedi effeithio ar gynghorau a gwasanaethau mewn ffyrdd gwahanol**

13 Mae rhai gwasanaethau wedi cael eu 'diogelu' rhag gostyngiadau mewn cyllidebau yn fwy na'i gilydd, ac i rai meysydd gwasanaeth mae hyn wedi amrywio ar draws cynghorau. Mae'n nodedig, serch hynny, bod rhai gostyngiadau sylweddol mewn gwariant wedi cael eu gweld ym meysydd rheoleiddiol ac ataliol gwariant cynghorau.

**Ceir ffactorau sylweddol sy'n effeithio ar gynaliadwyedd ariannol cynghorau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth**

14 Mae heriau cyd-destunol ehangach yn effeithio'n fawr ar y galw am wasanaethau a chostau i gynghorau. Mae hyn wedi cynnwys, er enghraifft, cynnydd mawr ac nas rhagwelwyd mewn chwyddiant oherwydd digwyddiadau byd-eang. I raddau amrywiol mae'r rhain y tu hwnt i reolaeth cynghorau. Mae hyn yn gwneud lliniaru eu heffaith yn anos.

## Mae gan yr holl gynghorau yng Nghymru drefniadau i ddeall eu sefyllfaoedd ariannol yn y tymor byr a chanolig. Fel rheol, serch hynny, nid ydynt yn bwrw golwg tymor hwy ar gynaliadwyedd ariannol

15 Ychydig o gynghorau sydd â dealltwriaeth gynhwysfawr am sut y byddant yn cau'r bylchau rhagamcanol yn eu cyllidebau dros y tymor canolig a hir – y tu hwnt i'r ddwy flynedd nesaf. Er bod rhai cynghorau wedi adnabod rhai o'r arbedion sy'n ofynnol, ceir dibyniaeth barhaus ar gylchoedd arbedion blynyddol, yn hytrach na chynlluniau trawsnewid tymor hwy. Mae hyn wedi golygu dibyniaeth ar arbedion byrdymor, a/neu ddefnyddio cronfeydd wrth gefn yn y tymor byr.

16 Mae hyn yn cynyddu'r risg dros amser na fydd bylchau yn y cyllid yn cael eu pontio, neu na fydd datrysiadau byrdymor yn helpu cynghorau i sicrhau gwerth am arian dros y tymor hwy.

## Mae gan gynghorau drefniadau adrodd ariannol sy'n briodol fel rheol ar gyfer y tymor byr a chanolig ond mae asesu a monitro effaith penderfyniadau ariannol yn wendid

17 Mae gan y rhan fwyaf o gynghorau drefniadau i adrodd ar eu sefyllfa ariannol yn y tymor byr a chanolig. Mae hyn yn helpu i hwyluso goruchwyliaeth a chraffu ar sefyllfa ariannol cynghorau. Fodd bynnag, mae asesu ac adrodd ar effaith wirioneddol cynlluniau a phenderfyniadau ariannol unwaith y maent wedi cael eu rhoi ar waith yn wendid. Heb ddeall a monitro effaith penderfyniadau ariannol mae'n anodd i gynghorau ddeall i ba raddau y maent yn cyflawni gwerth am arian.

## Enghreifftiau o arfer

18 Roedd ein hadolygiad yn amcanu at hyrwyddo enghreifftiau o arfer a allai helpu cynghorau i wella eu cynaliadwyedd ariannol. Rydym wedi tynnu ar rywfaint o'r hyn y gwnaethom arsylwi arno mewn cynghorau gwahanol yn ystod yr adolygiad ac wedi cynnwys rhestr wirio yn yr adroddiad i gynghorau ei hystyried yn erbyn eu trefniadau hwy eu hunain.

## Mae llawer o'r heriau ariannol a wynebir gan gynghorau Cymru'n gyffredin i'r rhai a wynebir gan gynghorau yng ngweddill y DU

19 Mae profiad o bob rhan o'r DU yn cynnig potensial ar gyfer dysgu o ardaloedd eraill. Rydym wedi amlinellu rhai o'r gwersi hyn, gan gynnwys gwersi allweddol o'r adroddiadau Adran 114 a gyhoeddwyd yn Lloegr. Mae hyn yn cynnwys pwysigrwydd bod yn ymwybodol a derbyn heriau ariannol, cynnig arweinyddiaeth i ymateb iddynt, a bod â threfniadau llywodraethu priodol i oruchwylio'r ymateb.

## Clywsom rai pryderon bod materion neu brosesau cenedlaethol yn gwneud cynllunio ariannol yn anos

20 Roedd y rhain yn cynnwys pryderon ynghylch:

- y fformiwla gyllido a ddefnyddir i ddosbarthu cyllid Llywodraeth Cymru i lywodraeth leol;
- amseriad y setliad cyllid llywodraeth leol, a'r diffyg setliadau 'amlflwyddyn' sy'n bresennol mewn meysydd gwariant eraill; a hefyd
- gosod cyfrifoldebau ychwanegol ar gynghorau heb i gyllid cymesur fod ar gael.

21 Rydym wedi adrodd ar y rhain i ddarparu cyd-destun a chydbwysedd ond nid ydym wedi archwilio nac asesu'r materion hyn o fewn cwmpas y gwaith hwn.

## Ein hymagwedd archwilio

22 Caiff ein hymagwedd archwilio ei nodi yn yr atodiadau wrth yr adroddiad hwn, ochr yn ochr â map sy'n darparu dolenni i'n hadroddiadau lleol. Mae'r gwaith hwn yn parhau â'n gwaith ar gynaliadwyedd ariannol, yn fwyaf diweddar yn 2021. Ategir ein gwaith hefyd gan ein hofferyn data cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol. Rydym wedi cyhoeddi'r diweddariad mwyaf diweddar i'r offeryn hwn ochr yn ochr â'r adroddiad hwn. Mae'r diweddariad hwn wedi ychwanegu data ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24[4], yn ogystal â dangosyddion newydd sy'n cwmpasu lefelau benthyciadau cynghorau.

4 Daw'r data yn yr offeryn ar gyfer 2022-23 a 2023-24 o ddatganiadau ariannol drafft, anarchwiliedig.

# Adroddiad manwl

## Beth mae cynaliadwyedd ariannol yn ei olygu?

23 Nid oes diffiniad cyffredin o gynaliadwyedd ariannol yn y sector cyhoeddus. Caiff ein dealltwriaeth ni am sut y mae cynaliadwyedd ariannol yn edrych ei goleuo gan ein gwybodaeth a phrofiad archwilio cronnus, a gwaith cyrff allweddol fel y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA). Fe'i goleuir hefyd gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

24 Gallai cyngor fod yn gynaliadwy trwy ddarparu'r gwasanaethau lleiaf i'r safon isaf a ganiateir gan y gyfraith. Ond byddai hyn yn annhebygol o'i alluogi i gyflawni ei holl amcanion neu ddiwallu anghenion a chwrdd â dyheadau ei gymunedau. Yn yr un modd gallai cynlluniau ariannol cyngor fod yn anghynaliadwy am ei fod yn ceisio darparu gwasanaethau ymhell uwchlaw disgwyliadau rhesymol defnyddwyr gwasanaethau, neu am ei fod wedi cymryd risgiau masnachol diangen i ddarparu gwasanaethau.

25 Mae cynghorau'n annibynnol ar gyrff cyhoeddus eraill gyda'u pwerau codi trethi eu hunain ond maent yn dal i fod â chysylltiad sylfaenol â'r sector cyhoeddus ehangach. Mae'r Senedd a Llywodraeth Cymru'n gosod gofynion ar gynghorau, gan hefyd ddarparu'r rhan fwyaf o'u cyllid, fel a amlinellir isod. Gall camau gweithredu gan gyrff cyhoeddus mewn sectorau eraill fel yr heddlu, gwasanaethau tân ac achub, a chyrff iechyd, gael effaith ar wasanaethau a gwariant cynghorau hefyd. I fod yn ariannol gynaliadwy, mae angen i gyngor ddarparu'r gwasanaethau sy'n ofynnol ganddo, yn ôl y gyfraith a disgwyliadau, o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddo yn y tymor hir. Gall rhan o hyn gynnwys ailddiffinio beth allai disgwyliadau 'rhesymol' fod i ddefnyddwyr gwasanaethau wrth i bwysau'r galw, blaenoriaethau a'r sefyllfa o ran cyllid newid.

26 Rhaid i gyngor cynaliadwy hefyd ddarparu'r asedau a'r seilwaith i'w gwneud yn bosibl darparu gwasanaethau'n effeithiol. Mae hyn yn galw am daro cydbwysedd rhwng buddsoddi cyfalaf a'i ffynonellau, megis benthyca, yn ogystal â chynnal a chadw parhaus a rhwymedigaethau yn y dyfodol ar y naill law, ac effaith y penderfyniadau ariannol hyn ar wariant refeniw ar y llaw arall. Gall methu â buddsoddi yn y tymor byr achosi costau uwch yn y tymor canolig a hir.

27 Er y gall cynghorau roi trefniadau ar waith a gwneud penderfyniadau i wella eu cynaliadwyedd ariannol, mae rhai ffactorau y tu hwnt i'w rheolaeth. Mae'r rhain yn cynnwys y lefelau cyllido a'r model cyllido a bennir i raddau helaeth gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, a newidiadau yn yr economi ehangach. Er eu bod y tu hwnt i'w rheolaeth, mae'n dal yn wir bod angen i gynghorau lunio tybiaethau gwybodus ynglŷn â ffactorau o'r fath i oleuo eu prosesau cynllunio ariannol.

# Ar y cyfan, canfuom fod gan y rhan fwyaf o gynghorau drefniadau i ategu eu cynaliadwyedd ariannol byrdymor ond nad ydynt wedi datblygu eu cynlluniau tymor hwy yn llawn eto

## Pa mor dda y mae cynghorau'n deall y sefyllfa ariannol?

28 Mae'r adroddiad cenedlaethol hwn yn adlewyrchu canfyddiadau o'r asesiadau yr ydym wedi'u cynnal ym mhob un o'r 22 o gynghorau. Ni fyddai'n synhwyrol nac o gymorth defnyddio'r canfyddiadau hyn i lunio 'tabl cynghrair' o gynaliadwyedd ariannol. Fodd bynnag, mae Atodiad 1 wrth yr adroddiad hwn yn dangos ein prif ganfyddiadau ar gyfer pob cyngor. Mae adroddiadau ar y cynghorau unigol wedi'u cyhoeddi ar wefan Archwilio Cymru.

29 Mae gan yr holl gynghorau drefniadau i'w galluogi i feintioli eu sefyllfa ariannol a deall eu pwysau ariannol yn y tymhorau byr a chanolig. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf yn dal i ganolbwyntio ar y ddwy flynedd nesaf, ac ychydig ohonynt sy'n edrych y tu hwnt i'r tair blynedd nesaf. Yn rhannol, mae hyn yn adlewyrchu'r cyllidebau mantoledig blynyddol y mae'n ofynnol i gynghorau eu pennu yn ôl y gyfraith, a all hybu ffocws ar y tymor byr. Gall edrych tuag at gyfnod hwy helpu cynghorau i gael dealltwriaeth well am yr heriau y maent yn eu hwynebu, yn ogystal ag ategu datrysiadau tymor hwy na ellir eu rhoi ar waith mewn cylch blynyddol.

30 Canfuom nad yw cronfeydd wrth gefn wastad yn cael eu defnyddio mewn modd strategol. Mae cronfeydd wrth gefn wedi cael eu defnyddio, mewn rhai cynghorau, fel strategaethau 'pontio' i fantoli cyllidebau blynyddol yn hytrach na chefnogi trawsnewid tymor hwy. Gall cronfeydd wrth gefn fod yn offeryn pwysig i gyllido buddsoddiadau i ategu cynaliadwyedd ariannol tymor hwy megis prosiectau 'buddsoddi i arbed' neu brosiectau trawsnewid. Mae cronfeydd wrth gefn hefyd i bob pwrpas yn gronfa argyfwng ar gyfer cynghorau y gellir ei defnyddio'n anfynych i gyllido pwysau ariannol annisgwyl. Mae eu defnyddio dim ond i gyllido pwysau yn ystod y flwyddyn heb eu defnyddio i ategu cynaliadwyedd ariannol tymor hwy yn annhebygol o gyflawni gwerth am arian dros y tymor hwy. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod, dan rai amgylchiadau, efallai nad oes modd osgoi hyn, yn enwedig o ystyried ar ba raddfa a chyflymder y mae pwysau ariannol wedi datblygu dros y blynyddoedd diwethaf.

31 Heb strategaethau ariannol hirdymor eglur, a ategir gan gynlluniau manwl ar gyfer y tymor canolig, mae cyfeiriad strategol hirdymor cynghorau tuag at sicrhau cynaliadwyedd ariannol yn aneglur. Mae strategaethau a chynlluniau ariannol corfforaethol yn darparu fframwaith i gynghorwyr etholedig, yn ogystal â'r cyhoedd, ddeall penderfyniadau a chamau gweithredu. Lle nad oes gan gynghorau strategaethau ariannol tymor hwy, ni allwn fod wedi ein sicrhau bod gan gynghorau drefniadau i ategu cynaliadwyedd ariannol hirdymor ac felly gwerth am arian.

32 I helpu i wella eu cynaliadwyedd ariannol, mae rhai cynghorau wedi ceisio cyngor i ddeall eu sefyllfa ariannol yn well. Mae hyn wedi cynnwys meincnodi i ddeall gwariant y pen gyda chynghorau tebyg. Gall hyn helpu cynghorau i adnabod cyfleoedd i wella gwerth am arian trwy ddysgu sut y mae cynghorau eraill yn darparu gwasanaethau a chostau eu darparu.

## Pa mor ddatblygedig yw cynlluniau cynghorau i ymateb i'r her ariannol dros y tymor canolig?

33 Nid oes gan yr un cyngor ddealltwriaeth gynhwysfawr am sut y bydd yn pontio'r bylchau yn ei gyllid dros gyfnod ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC). Er bod rhai wedi adnabod cyfran sylweddol o'r arbedion, mae'r mwyafrif yn dal i ganolbwyntio ar arbedion blynyddol. Yn y tymor hir, mae'n annhebygol y bydd y dull hanesyddol o wneud toriadau fesul tipyn ar draws ystod eang o wasanaethau'n ddigon o ystyried lefelau'r arbedion y mae cynghorau wedi eu gwneud ers 2008.

34 Mae cynghorau'n cydnabod bod angen rhywfaint o drawsnewid gwasanaethau i bontio'r bylchau yn eu cyllid; fodd bynnag, nid yw cynlluniau trawsnewid yn cael eu datblygu'n gyson. Mae rhai cynghorau wedi adnabod prosiectau trawsnewid, eu graddfeydd amser, a'u harbedion bwriadedig, sy'n helpu i hysbysu cynghorwyr ynghylch y datrysiadau posibl dros gyfnod hwy. Mae'r rhan fwyaf o gynghorau yng nghamau cynnar eu cynlluniau trawsnewid cyfredol, naill ai'n ffurfio trefniadau llywodraethu neu'n llunio rhestr o opsiynau posibl. Er nad yw'n anorfod y bydd yr holl drawsnewid yn arwain at arbedion, mae'n debygol y bydd angen cyflymu'r trawsnewid i helpu cynghorau i bontio'r bylchau yn eu cyllid dros y tymor canolig.

## A oes gan gynghorau drefniadau llywodraethu cryf?

35 Mae gan y rhan fwyaf o gynghorau drefniadau i adrodd wrth gynghorwyr ar eu sefyllfa ariannol yn y tymor byr a chanolig. Mae hyn yn helpu i hwyluso goruchwyliaeth ar y sefyllfa ariannol ac i oleuo prosesau penderfynu.

36 Fodd bynnag, nid oes gan y rhan fwyaf o gynghorau drefniadau i ddeall ac asesu effaith penderfyniadau ariannol yn barhaus. Mae adrodd ar effaith penderfyniadau ar amcanion cynghorau a chymunedau lleol yn galluogi cynghorwyr i ddeall a yw effaith fwriadedig penderfyniadau ariannol wedi dod yn ffaith. Mae hyn yn ei dro'n helpu i adnabod a oes angen cymryd unrhyw gamau cywirol, yn ogystal â goleuo asesiadau o werth am arian penderfyniadau. Gall hefyd ddarparu gwersi i helpu i oleuo penderfyniadau ariannol yn y dyfodol.

## Enghreifftiau o arfer

37 Rydym wedi tynnu ar beth o'r arfer y gwnaethom arsylwi arno mewn gwahanol gynghorau yn ystod yr adolygiad i ddatblygu rhestr wirio i gynghorau ei hystyried yn erbyn eu trefniadau hwy eu hunain:

- defnyddio cyngor allanol – mae rhai cynghorau wedi ceisio ategu eu dealltwriaeth am eu sefyllfa ariannol trwy gaffael data meincnodi manwl gan sefydliadau allanol. Mae hyn wedi helpu cynghorau i ddeall gwariant gwasanaethau yn berthynol i gynghorau tebyg, yn ogystal ag amrywiad posibl yn lefel y gwasanaethau y maent yn eu darparu. Gall hyn helpu cynghorau i gael gwybodaeth well am ble a sut y gallent wella gwerth am arian y gwasanaethau a ddarperir ganddynt.
- hybu dull cyfunol o wneud penderfyniadau ariannol – fe wnaeth nifer o gynghorau amlinellu sut y maent wedi cyfleu i gynghorau bod y gyllideb yn broses barhaus, yn hytrach na digwyddiad blynyddol. Fe arweiniodd hyn, er enghraifft, at weithdai a sesiynau ymgysylltu i drafod cynigion ariannol. Gall hyn helpu i ddatblygu dealltwriaeth am benderfyniadau sydd weithiau'n anodd, ac felly cefnogaeth iddynt.
- gwneud penderfyniadau'n hawdd i'w dychmygu – mae rhai cynghorau wedi adrodd wrth gynghorwyr am arbedion arfaethedig yn y gyllideb yn nhermau arian parod ac fel canran o'r Dreth Gyngor. Gall hyn helpu cynghorwyr i fod â dealltwriaeth well am effaith derbyn neu wrthod arbediad ar dalwyr lleol y dreth gyngor. Yn ei dro, mae hyn yn helpu i wella tryloywder a dealltwriaeth am yr effaith ar gymunedau.
- dadansoddi'r galw yn y dyfodol – mae ychydig o gynghorau wedi gwneud ymchwil i ddeall maint a natur galw rhagamcanol hirdymor am wasanaethau gan ddefnyddio data mewnol ac allanol. Gall hyn helpu cynghorau i ddatblygu dealltwriaeth fanwl am y bwlch yn eu cyllideb, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau â chynnydd rhagamcanol sylweddol yn y galw, megis gofal cymdeithasol oedolion.

- cysoni cynlluniau ariannol a thrawsnewid – mae ychydig o gynghorau wedi datblygu strategaethau trawsnewid sy'n cyd-fynd â'u Cynlluniau Ariannol Tymor Canolig i amlinellu eu dull o gau'r bylchau yn eu cyllidebau dros y tymor byr, canolig a hir. Gall hyn helpu cynghorau i gyfleu eu dull bwriadedig i swyddogion, cynghorwyr a rhanddeiliaid eraill. Mae hefyd yn helpu i ddarparu fframwaith strategol ar gyfer gwneud penderfyniadau.
- bod ag offer eglur i dracio arbedion – mae'r rhan fwyaf o gynghorau'n tracio'r modd y maent yn rhoi eu harbedion ar waith ac yn adrodd ar hyn wrth gynghorwyr er mwyn iddynt eu goruchwylio. Mae rhai cynghorau'n rhoi sgoriau risg i arbedion unigol er mwyn rhoi arwydd eglur o'r tebygolrwydd o'u cyflawni. Gall rhoi sgoriau risg i arbedion wella craffu trwy ei gwneud yn glir lle nad yw arbedion ar y trywydd iawn i gael eu cyflawni yn unol â'r targed a lle mae angen cymryd camau cywirol.
- deall yn glir beth yw effeithiau hirdymor a byrdymor prosesau penderfynu – mae'r rhan fwyaf o gynghorau'n asesu effaith cynigion ar gyfer arbedion sylweddol. Mae rhai cynghorau'n asesu'r effaith ar gymunedau a chyflawni'r amcanion llesiant, rhai dros y tymor byr a hir. Gall hyn helpu i wella ansawdd prosesau penderfynu trwy ddarparu dealltwriaeth fanwl ar gyfer cynghorwyr am effaith bosibl penderfyniadau yn awr ac yn y dyfodol. Gall disgrifio opsiynau a ystyriwyd i liniaru unrhyw effaith negyddol hefyd helpu i hysbysu cynghorwyr wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â chynigion ar gyfer arbedion.
- deall a rhesymoli'r sylfaen asedau – mae cynghorau'n berchen ar ystod o adeiladau ac asedau eraill i ddarparu gwasanaethau ac yn buddsoddi ynddynt. Mae ganddynt gostau cynnal a chadw parhaus sy'n effeithio ar gynlluniau gwariant ac effeithiolrwydd gwasanaethau. Mae deall cyflwr asedau y maent eisoes yn berchen arnynt, yn ogystal â deall yr hyn y mae ei angen yn y dyfodol, yn helpu i ddeall a chynllunio ar gyfer costau refeniw a chyfalaf adeiladau.

# Canfyddiadau cenedlaethol

38 Mae ein hadroddiadau lleol wedi canolbwyntio ar y trefniadau sydd gan bob cyngor i ategu cynaliadwyedd ariannol. Fel a esbonnir uchod, darperir y rhan fwyaf o gyllid cynghorau gan Lywodraeth Cymru. Isod rydym yn crynhoi themâu a godwyd gan gynghorau yn ystod ein gwaith maes sy'n ymwneud â Llywodraeth Cymru.

## Fformiwla gyllido

39 Mae cyllid gan Lywodraeth Cymru, a adwaenir fel y setliad llywodraeth leol, yn cael ei bennu trwy gymhwyso fformiwla a adwaenir fel yr Asesiad o Wariant Safonol. Mae'r Asesiad o Wariant Safonol wedi'i fwriadu i adlewyrchu gwahanol gostau darparu gwasanaethau oherwydd demograffeg, daearyddiaeth, neu nodweddion economaidd-gymdeithasol. Dyrennir symiau tybiannol o gyllid i feysydd gwasanaeth penodol, er mai cynghorau unigol sydd wedyn yn penderfynu sut y dyrennir y cyllid hwn ar draws meysydd gwasanaeth.

40 Amlinellir proses yr Asesiad o Wariant Safonol mewn dogfennau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru yn flynyddol.[5] Mae'r dogfennau hyn yn cynnwys y ffynonellau data, y dangosyddion a ddefnyddir, a'r asesiadau sy'n tynnu ar y data a dangosyddion. Adwaenir hwn fel y 'Llyfr Gwyrdd'. Cafodd y fformiwlâu ar gyfer yr holl wasanaethau eu hadolygu'n annibynnol cyn setliad 2001-02 ac fe gwblhawyd adolygiadau â ffocws ar agweddau penodol ar y fformiwla wedi hynny, y cytunwyd arnynt yn dilyn trafodaethau trwy'r is-grŵp cyllid, sy'n cynnwys cynrychiolwyr cynghorau o blith cynghorwyr a swyddogion. Mae Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi papurau'n flynyddol sy'n darparu cyd-destun ac yn amlinellu'r broses flynyddol ar gyfer eu pennu.

41 Mae'r dangosyddion a ddefnyddir yn y fformiwlâu wedi'u rhannu'n dri chategori:

- prif grwpiau cleientiaid – Dyma'r prif ffactorau sy'n dylanwadu ar gost, megis poblogaeth neu niferoedd disgyblion. Yn 2024-25, roedd hyn yn cynrychioli 65% o'r dangosyddion.
- amddifadedd – Dangosyddion sy'n adlewyrchu costau ychwanegol i gefnogi pobl â lefelau uwch o amddifadedd. Yn 2024-25, roedd hyn yn cynrychioli 28% o'r dangosyddion.
- gwasgariad y boblogaeth – Dangosyddion sy'n adlewyrchu costau ychwanegol i gefnogi pobl mewn ardaloedd â phoblogaeth wasgaredig. Yn 2024-25, roedd hyn yn cynrychioli 6% o'r dangosyddion.

5 Er enghraifft, Setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol: Gwybodaeth gefndir ar gyfer asesiadau o wariant safonol 2024-25

42 Mae cyfanswm y cyllid sydd ar gael, pennu sut y caiff hwn ei ddosbarthu, a darparu unrhyw 'arian atodol' i sicrhau bod yr holl gynghorau'n cael cynnydd sylfaenol mewn cyllid yn amlwg yn benderfyniadau gwleidyddol i Lywodraeth Cymru. Ceir hefyd elfennau o'r setliad sydd wedi'u nodi gan y gyfraith, megis dosbarthiad Ardrethi Annomestig, ac mae'r setliad hefyd yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd. Nid ydym wedi archwilio manylion y fformiwla, ei data gwreiddiol, na'i heffeithiolrwydd fel rhan o'r adolygiad hwn.

43 Mae'n anorfod bod amrywiaeth o farn ledled Cymru ynglŷn â rhinweddau'r system hon sy'n aml yn cydberthyn â sut y dyrennir cyllid. Roedd gan y rhai sy'n cael lefelau cymesur fwy o gyllid gan Lywodraeth Cymru, fel rheol, lai i wneud sylw arno yn ystod ein gwaith maes.

44 Fodd bynnag, clywsom nifer o bryderon a oedd yn ymwneud â'r Asesiad o Wariant Sylfaenol trwy ein gwaith maes. Roedd y rhain yn cynnwys:

- mae'r Asesiad o Wariant Sylfaenol yn arwain at ormod o wahaniaeth rhwng cynghorau cyfagos;
- mae'r Asesiad o Wariant Sylfaenol yn cynnwys pwyslais ar gyllid ar gyfer gwasanaethau i blant yn hytrach na phobl hŷn, er bod gwasanaethau i bobl hŷn yn aml yn arwain at gostau uwch oherwydd costau gofal cymdeithasol; ac
- nad yw peth data a ddefnyddir yn yr Asesiad o Wariant Sylfaenol yn ddigon cyfoes.

45 Nid ydym wedi archwilio'r haeriadau hyn. Fodd bynnag, mae peth gwybodaeth berthnasol eisoes wedi cael ei darparu gan Lywodraeth Cymru. Er enghraifft, roedd dogfennau'r Asesiad o Wariant Sylfaenol yn 2024-25 yn cydnabod bod peth data a oedd yn ymwneud ag anheddiad a gwasgariad yn seiliedig ar gyfrifiadau 1991 a 2001, tra bo eraill hefyd yn defnyddio data o 2001 a 2011. Mae rhai elfennau o'r data'n cael eu diweddaru'n fwy mynych. Nid ydym wedi adolygu'r effaith y gallai enghreifftiau o'r fath ei chael; fodd bynnag, mae'n amlwg yn bwysig bod gan Lywodraeth Cymru sicrwydd ynghylch dilysrwydd a chywirdeb data a ddefnyddir i oleuo penderfyniadau ynglŷn â dyraniadau cyllid.

## Hyd ac amseriad y setliad

46 Fe wnaeth swyddogion cynghorau amlinellu'r straen ar gapasiti ac unigolion y mae amseriad a hyd y setliad llywodraeth leol yn gallu ei chael. Lle mae cyllid yn wahanol i'r lefel ddisgwyliedig neu'n newid rhwng y dyraniad dros dro a therfynol, gall hyn olygu bod angen gwneud newidiadau sylweddol i gynlluniau lleol. Yn y tri setliad cyn cyhoeddi, roedd y newid cyfartalog yn y setliad yn gynnydd o 0.3%. Mae cyfnewidioldeb blynyddol mewn lefelau cyllid yn gallu ychwanegu ansicrwydd pellach at y newidiadau hyn.

47 Cyn y pandemig, arferai'r setliad dros dro gael ei gyhoeddi fel rheol ym mis Hydref gyda'r setliad terfynol yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr. Roedd hyn yn rhoi amser i gynghorau oleuo eu proses o bennu'r gyllideb leol. Ers 2019, mae'r setliad dros dro wedi bod yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr a'r setliad terfynol ym mis Chwefror neu fis Mawrth. Mae hyn yn lleihau'r amser cynllunio i gynghorau ac wedi golygu bod cynghorau wedi bod yn penderfynu ar eu cyllidebau blynyddol cyn cael gwybod faint o gyllid y byddent yn ei gael. Mae hyn yn cynyddu'r risg y bydd cyllid ychwanegol yn cael ei ddyrannu heb asesiad priodol o'i effaith, neu y bydd cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio mewn ffordd heb ei chynllunio os yw'r cyllid yn is na'r lefel a gyllidebwyd. Mae'r ddau senario'n cynyddu'r risg na fydd cyllid yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd gynlluniedig i sicrhau gwerth am arian dros y tymor hwy.

48 Hefyd, teimlid fod amseriad grantiau penodol yn cynyddu'r pwysau ar swyddogion a chynllunio ariannol. Er enghraifft, pan geir ansicrwydd a fydd cyllid ychwanegol yn ariannu codiadau cyflog y cytunwyd arnynt yn genedlaethol neu newidiadau mewn cyfraddau cyfraniadau pensiwn, mae hyn yn gwneud y broses o lunio rhagolygon ariannol yn fwy o her.

49 Mewn rhai blynyddoedd blaenorol, rhoddodd Llywodraeth Cymru arwydd amlflwyddyn i gynghorau o gyllid cynghorau ar y cyfan. Nid yw hyn wedi bod yn cael ei roi'n gyson ac nis rhoddwyd yn y flwyddyn gyfredol. Mae rhai o'r cyfwelwyr wedi dweud bod diffyg eglurder ynghylch cyllid dangosol yn rhwystr i gynllunio ariannol effeithiol.

50 Rydym yn cydnabod bod rhai ffactorau sy'n dylanwadu ar amseriad setliad ariannol llywodraeth leol yn rhai sydd y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru. Mae amserlen a phenderfyniadau digwyddiadau cyllidol yn Senedd y DU yn cael effaith sylweddol ar y broses o bennu'r gyllideb yng Nghymru. Gall hyn gyfyngu ar yr eglurder y mae Llywodraeth Cymru'n gallu ei roi ynghylch setliadau a grantiau yn y dyfodol a'u hamseriad.

51 Gall cynghorau dynnu ar wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus i helpu i ragweld lefelau cyllido yn y dyfodol. Er enghraifft, fe wnaeth Canolfan Llywodraethiant Cymru ddarparu amcanestyniadau ar gyfer cyllidebau cynghorau hyd at 2027-28 ym mis Hydref 2023. Mae cynghorau hefyd yn defnyddio cymhariaeth rhwng rhagdybiaethau ariannol, megis codiadau cyflog disgwyliedig, a luniwyd gan wahanol gynghorau trwy Gymdeithas Trysoryddion Cymru. Gwelsom fod pob cyngor yn defnyddio tystiolaeth fel hyn i raddau amrywiol. Gall rhagolygon fod yn ddefnyddiol i alluogi cynghorau i ddatblygu gwahanol opsiynau, fel eu bod yn barod i ymateb i bwysau ariannol unwaith y bydd lefelau cyllido'n cael eu cadarnhau neu ddigwyddiadau nas rhagwelwyd yn digwydd. Gall hyn helpu i liniaru ansicrwydd ynghylch sefyllfa'r gyllideb yn y dyfodol a helpu cynghorau i baratoi ar gyfer ystod o senarios.

## Cyfrifoldebau ychwanegol

52 Roedd rhai cyfweleion yn teimlo nad yw Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol er gwaethaf y cyfrifoldebau ychwanegol a roddwyd ar gynghorau trwy ddeddfwriaeth newydd.

53 Fel a amlinellwyd uchod, mae gwasanaethau (neu lefelau gwasanaethau) a ddarperir gan gynghorau'n cael eu darparu naill ai am bod y cyngor yn dewis gwneud hynny (gwasanaeth 'dewisol') neu am ei bod yn ofynnol iddo wneud hynny yn ôl y gyfraith (gwasanaeth 'statudol'). Mae dyletswyddau cyfreithiol wedi'u cynnwys mewn Deddfau a basiwyd gan Senedd Cymru neu Senedd y DU. Fodd bynnag, ar gyfer gwasanaethau statudol, mae gan Gynghorau'r opsiwn i siapio'r gwasanaethau hyn lle nad yw lefelau'r gwasanaethau wedi'u rhagnodi.[6]

54 Wrth i Ddeddfau newydd gael eu pasio gall olygu bod dyletswyddau newydd yn cael eu gosod ar gynghorau. Gall deddfwriaeth hefyd ddwyn canlyniadau anfwriadol sy'n arwain at gostau ychwanegol i gynghorau, er enghraifft pan fydd yn arwain at benderfyniad gan ddarparwyr gwasanaethau yn y sector preifat i roi'r gorau i ddarparu gwasanaeth a bod rhaid i gynghorau gau bwlch yn y ddarpariaeth fel y 'darparwr sy'n ddewis olaf.' Roedd y maes a ddyfynnwyd fynychaf lle'r oedd y cyfwelwyr yn teimlo bod deddfwriaeth wedi arwain at gostau cynyddol yn ymwneud â gwasanaethau tai.

6 Er enghraifft, mae Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i feintiau dosbarthiadau mewn ysgolion cynradd fod yn ddim mwy na 30 o ddisgyblion felly ni allai cyngor gynyddu maint dosbarthiadau uwchlaw hyn.

## Cyd-destun ehangach y DU

### Nid yw'r pwysau ar gyllid cynghorau yn unigryw i Gymru ac mae hyn yn cynnig mewnwelediad i achosion a dangosyddion posibl lle mae cynaliadwyedd ariannol yn y cwestiwn

55 Pan fydd cyngor, ym marn y Prif Swyddog Cyllid[7], wedi gwario (neu wedi ymrwymo i wario) mwy na chyfanswm yr adnoddau sydd ar gael iddo, rhaid i'r swyddog (mewn ymgynghoriad ag uwch swyddogion eraill) adrodd ar hyn wrth gynghorwyr ac wrth yr archwilydd (yr Archwilydd Cyffredinol, yng Ngymru). Gelwir hyn yn adroddiad Adran 114.[8] Mae hyn wedyn yn cyfyngu ar unrhyw wariant newydd y gall y cyngor ei wneud. Hyd yma, nid oes unrhyw adroddiadau o'r fath wedi cael eu gwneud yng Nghymru.


56 Ers 2018, yn Lloegr mae 11 adroddiad wedi cael eu gwneud am nad yw cynghorau'n gallu mantoli'r gyllideb (**Arddangosyn 1**).

7 Cyfeirir yn gyffredin at hwn fel swyddog Adran 151 gan bod y rôl yn ofynnol gan a151 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

8 a144 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Mae hyn hefyd yn berthnasol os yw'r swyddog a151 yn credu y bydd cyngor yn ysgwyddo gwariant anghyfreithlon.

**Arddangosyn 1: ardaloedd cynghorau yn Lloegr sydd wedi gwneud adroddiad Adran 114**

Mae’r map hwn yn dangos yr wyth cyngor yn Lloegr sydd wedi gwneud adroddiad Adran 114.




Ffynhonnell: Archwilio Cymru

57 Er bod dylanwadau lleol gwahanol ym mhob achos, adnabu'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) bedair thema gyffredin:

**Arddangosyn 2: themâu cyffredin mewn adroddiadau Adran 114**

| | |
|---|---|
| Amharodrwydd i weld realiti'r sefyllfa | Anwybyddu'r rhybuddion am y sefyllfa ariannol, yn fewnol ac yn allanol, er mwyn osgoi cydnabod nad oedd y cynllun cyfredol yn gweithio. |
| Diffyg arweinyddiaeth | Methu gwneud penderfyniadau anodd - gan swyddogion a chynghorwyr. Mae hyn yn golygu llai o ddatrys problemau a chraffu ar gynigion. |
| Prosesau llywodraethu annigonol | Diffyg goruchwyliaeth sylweddol gan gynghorwyr, yn enwedig gan bwyllgorau llywodraethu ac archwilio. Mae diffyg sgiliau'n cyfrannu at hyn. |
| Rheolaeth ariannol wan | Prosesau gwan ac annigonol sydd heb atebolrwydd, cynaliadwyedd a thryloywder. Arwydd posibl o hyn yw dirywiad sylweddol mewn cronfeydd wrth gefn, sy'n cyfyngu ar ddatrysiadau i broblemau pan fyddant yn codi. |

Ffynhonnell: CIPFA

58 Mae CIPFA wedi cynhyrchu adnoddau i gefnogi cynghorau, megis Building Financial Resilience, yn ogystal ag amlinellu map ffordd i osgoi Adran 114:

- dylai'r broses arbedion fod yn effeithiol ac yn ymgysylltiol, gyda deiliaid cyllidebau'n rhan o adnabod a chyflawni arbedion;
- rhaid i'r risgiau sy'n ymwneud â gweithgareddau masnachol gael eu deall yn glir, gyda goruchwyliaeth effeithiol ar gwmnïau y mae'r cyngor yn berchen arnynt;
- rhaid i gynghorwyr gael hyfforddiant ar faterion ariannol, gan wella eu dealltwriaeth am faterion cymhleth;
- dylai trefniadau llywodraethu gael eu cryfhau a chynnwys y gallu i ddweud y gwir wrth y rhai sydd â grym;
- dylai'r gwasanaeth archwilio mewnol adolygu effeithiolrwydd rheolau a phrosesau ariannol, a gwybodaeth am reoliadau ariannol a'r modd y cydymffurfir â hwy;
- dylid asesu ansawdd rheolaeth ariannol, yn enwedig ar gyfer sefydliadau mwy;
- gall sicrwydd annibynnol ynghylch y datganiad llywodraethu blynyddol sicrhau ei fod yn effeithiol; a
- gellir cael adolygiad o gydnerthedd ariannol.

59 Gellid defnyddio'r strwythur hwn fel sail i gynghorau adolygu eu sefyllfa eu hunain, ochr yn ochr â'n hadroddiadau lleol ni. Er enghraifft, mae Cyngor Sir Ddinbych wedi defnyddio'r themâu cyffredin a'r map ffordd i ddatblygu hunanasesiad i hysbysu ei Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am y risg y bydd adroddiad Adran 114 yn ofynnol. Mae'n bwriadu gwneud hwn yn asesiad blynyddol i ategu ei drefniadau a goruchwyliaeth gan gynghorwyr.

60 Mae cynghorwyr, trwy eu gweithgarwch craffu a gwneud penderfyniadau, yn rhan bwysig o fframwaith llywodraethu sy'n cefnogi cynaliadwyedd ariannol. Gallai hyn gynnwys craffu ar gadernid cynlluniau ariannol neu benderfyniadau arfaethedig, yn ogystal â bod angen gwneud penderfyniadau anodd i ategu cynaliadwyedd ariannol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r Egwyddorion ar gyfer Llywodraethu Da yn y Sector Cyhoeddus

61 Mae cynaliadwyedd ariannol a'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â modelau cyllido wedi cael eu hadnabod fel mater o bwys gan archwilwyr mewn rhannau eraill o'r DU.

62 Er enghraifft, yn Lloegr mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) wedi adrodd[9] ar effaith ansicrwydd a chydnerthedd ariannol ar allu cynghorau i gyflawni gwerth am arian. Mae canfyddiadau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn debyg iawn i'n canfyddiadau ni, gan gynnwys:

- cynghorwyr yn ymatal rhag gwneud penderfyniadau anodd yn y gobaith y byddai'r setliad yn fwy cadarnhaol na'r disgwyl;
- diffyg amser i adolygu opsiynau ar gyfer arbedion i allu gwneud penderfyniadau da yn hytrach na chyflym;
- tueddiad i fod yn or-ofalus a thorri gwasanaethau yn hytrach na chynllunio ar gyfer effeithlonrwydd dros y tymor canolig; a hefyd
- y duedd i gronni cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn gan ddisgwyl y bydd eu hangen i fantoli'r gyllideb nesaf.

63 Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol hefyd wedi cynhyrchu canllaw arfer da ar gyfer arweinwyr a phenderfynwyr mewn amgylchedd ansicr i helpu i ystyried gwerth am arian, yn ogystal â chynllunio strategol a chyllidebu.

64 Mae Audit Scotland wedi dod i'r casgliad bod bylchau yng nghyllidebau cynghorau yn 2024-25 yn 'anghynaliadwy'.[10] Fe wnaethant adrodd ar themâu tebyg i Gymru, megis yr amserlen sy'n gryn her ar gyfer pennu cyllidebau a phwysigrwydd eglurder mewn cynlluniau ariannol. Maent hefyd wedi nodi'r canlynol yn ddiweddar:[11] 'the unprecedented financial and service demand pressures mean there is an urgent need for the local government sector to transform how it operates if it is to sustainably maintain services''.

9 Er enghraifft, Local government finance in the pandemic, Mawrth 2021 a The local government finance system in England: overview and challenges, Tachwedd 2021

10 Audit Scotland, Local government budget 2024-25, Mai 2024

11 Audit Scotland, Transformation in councils, Hydref 2024

65 Mae Audit Scotland wedi datblygu egwyddorion trawsnewid allweddol (**Arddangosyn 3**), yn ogystal â nodi rhwystrau i drawsnewid, a strwythurau posibl i gefnogi hynny. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys nodweddion a allai fod yn berthnasol i Gymru, megis pwysleisio'r angen i gynnwys y gymuned, cydweithio ac atal. Mae hefyd yn tanlinellu pwysigrwydd arloesi.

**Arddangosyn 3: egwyddorion trawsnewid**

Mae'r arddangosyn hwn yn nodi egwyddorion ar gyfer trawsnewid cynghorau a gyhoeddwyd gan Audit Scotland.

| | |
|---|---|
| Gweledigaeth | Bod â gweledigaeth glir sy'n nodi cyflwr terfynol arfaethedig unrhyw weithgarwch trawsnewid, sy'n canolbwyntio ar:<br>• gyflawni arbedion cylchol ar raddfa fawr neu greu incwm i'r Cyngor, gan gyfrannu at ei gynaliadwyedd ariannol tymor hwy;<br>• gwella canlyniadau i ddinasyddion yn unol â blaenoriaethau'r cyngor;<br>• defnyddio dull system gyfan i weld a gwireddu cyfleoedd o fewn cynghorau ac yn ehangach;<br>• diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a lleihau anghydraddoldebau; a<br>• chanolbwyntio ar weithgarwch ataliol, lle y bo hynny'n berthnasol, i leihau'r galw am wasanaethau a'u gwneud yn gynaliadwy yn y tymor hwy. |
| Cynllunio | • Bod yn glir ynghylch maint y newid sy'n ofynnol a sicrhau bod cynlluniau trawsnewid yn ddigon uchelgeisiol i ymateb yn gredadwy i faint yr her.<br>• Neilltuo staff â sgiliau, amser ac adnoddau priodol i sicrhau bod trawsnewidiad yn digwydd ar y raddfa a'r cyflymder sy'n ofynnol a bod digon o gapasiti i wreiddio'r newidiadau.<br>• Bod yn glir ynghylch graddfeydd amser, costau, deilliannau ac effeithiau disgwyliedig prosiectau trawsnewid.<br>• Dangos brys a symud prosiectau yn eu blaenau'n gyflym heb beryglu trefniadau llywodraethu priodol ar brosiectau |
| Llywodraethu | • Bod â phroses glir ar gyfer monitro, gwerthuso ac adrodd ar gynnydd.<br>• Sefydlu prosesau llywodraethu ac uwchgyfeirio effeithiol fel bod y gweithgareddau trawsnewid yn cael eu rheoli'n dda yn eu rhinwedd eu hunain, ond hefyd yn gallu cael blaenoriaeth ochr yn ochr â gweithgareddau busnes-fel-arfer eraill |

| | |
|---|---|
| Cydweithio | • Datblygu perthnasoedd gweithio gwell â chymunedau a/neu bartneriaid i gyflawni model darparu gwasanaethau cynaliadwy.<br>• Rhoi ystyriaeth weithredol i'r cyfleoedd a gynigir gan gydweithio rhanbarthol neu genedlaethol yn y sector, neu drwy integreiddio gwasanaethau'n lleol â phartneriaid, neu drwy gynorthwyo unigolion a chymunedau i gyflawni'r deilliannau a ddymunir yn lle gwasanaeth presennol.<br>• Dysgu o arfer da ledled y wlad a'r tu hwnt. |
| Arloesi | • Gweithredu ffyrdd newydd o feddwl, gan gynnwys arloesi, creadigrwydd a dyhead, parodrwydd a gweithredu i newid a gwneud pethau mewn ffyrdd newydd a gwahanol sy'n cyflawni'r deilliannau y mae eu hangen.<br>• Gwreiddio'r diwylliant a'r ymddygiadau cywir i reoli newid a helpu i gynyddu cyfraniad yr holl dîm i'r eithaf. |

Ffynhonnell: Audit Scotland

# Beth mae hyn yn ei olygu i gynghorau yn y dyfodol?

## Ceir risgiau sylweddol i gynaliadwyedd sefyllfaoedd ariannol cynghorau sy'n debygol o gynyddu dros y tymor canolig oni chymerir camau gweithredu i'w lliniaru.

### Bydd sicrhau gwerth am arian yn bwysicach byth i ategu cynaliadwyedd ariannol

66 Yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn rydym yn dangos maint y pwysau o ran cyllid sy'n wynebu llywodraeth leol a sut y mae cynghorau'n ymateb i'r her hon. Rydym hefyd yn nodi rhai materion y gall Llywodraeth Cymru eu hystyried uchod.

67 O ystyried tueddiadau ariannol ac economaidd ehangach, efallai na fydd y sefyllfa o ran cyllid ar gyfer cynghorau'n gwella'n sylweddol dros y tymor canolig. Er enghraifft, roedd dadansoddiad gan Brifysgol Caerdydd ym mis Hydref 2023 yn rhagweld gostyngiad o 4.3% yn y cyllid mewn termau real ar gyfer llywodraeth leol rhwng 2025-26 a 2027-28. Mae CLILC wedi amcangyfrif bwlch cyllidebol o £559 miliwn ar gyfer 2025-26, y maent yn rhagweld y bydd yn codi'n sylweddol gydag £1 biliwn pellach o alw disgwyliedig ychwanegol yn y ddwy flynedd ganlynol.

68 Os yw'r amcanestyniadau hyn yn profi'n gywir, mae'n cynyddu'r angen i gynghorau roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer sicrhau gwerth am arian yn eu prosesau cynllunio strategol ariannol ac ehangach. O ystyried y maint posibl, bydd hyn yn golygu newid sylweddol mewn dull ar gyfer rhai cynghorau a phwyslais mwy eglur o lawer ar symud y tu hwnt i bennu cyllideb fantoledig yn flynyddol i gynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig.

### Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n darparu fframwaith i gefnogi cynllunio ariannol a strategol

69 Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n darparu fframwaith y gall cynghorau ei ddefnyddio i ddatblygu eu cynlluniau a'u strategaethau ariannol. Gall hefyd ddarparu fframwaith ar gyfer asesu cynigion neu benderfyniadau unigol sydd wedi'u bwriadu i ategu cynaliadwyedd ariannol cyngor. Caiff rhai effeithiau posibl peidio â chymhwyso'r egwyddor eu nodi isod yn erbyn y pum ffordd o weithio (**Tabl 1**):

**Tabl 1: enghreifftiau o effaith bosibl peidio â chymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy**

Mae'r tabl hwn yn nodi effeithiau posibl peidio â chymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn perthynas â phob un o'r pum ffordd o weithio.

| Ffordd o weithio | Enghreifftiau o effaith bosibl peidio â chymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy |
|---|---|
| Hirdymor | • Defnyddir cronfeydd wrth gefn yn y tymor byr i fantoli cyllidebau blynyddol mewn ffordd sy'n eu hatal rhag cael eu defnyddio ar gyfer buddsoddiad tymor hwy a allai sicrhau gwerth gwell am arian.<br>• Nid yw effeithiau hirdymor cynigion ar gyfer arbedion yn cael eu hystyried yn briodol, gan arwain o bosibl at gostau uwch a deilliannau is i ddefnyddwyr gwasanaethau dros y tymor hwy.<br>• Nid yw gofynion buddsoddi dros y tymor canolig a hwy yn cael eu cyllido/blaenoriaethu yn y tymor byr, er enghraifft mewn perthynas â datblygu capasiti, sgiliau seilwaith-benodol. |
| Ataliad | • Yn gysylltiedig â'r enghreifftiau uchod o dan 'hirdymor', mae peidio â buddsoddi mewn mentrau ataliol yn cynyddu'r galw am wasanaethau mwy acíwt a chost eu darparu. Mae hefyd yn arwain at ddeilliannau is i ddefnyddwyr gwasanaethau. |
| Integreiddio | • Nid yw cynlluniau ariannol yn cael eu hintegreiddio â chynlluniau a strategaethau eraill cyngor na rhai ei bartneriaid. Neu beidio â deall y berthynas rhwng penderfyniadau ynghylch darparu adnoddau/arbedion ar draws gwahanol feysydd yn y busnes. Mae hyn yn arwain at ddyblygu ymdrech a cholli cyfleoedd i sicrhau manteision lluosog, a gall amharu ar gynnydd tuag at uchelgeisiau tymor hwy, fel y'u diffinnir yn yr Amcanion Llesiant. |
| Cynnwys | • Nid yw'r rhai sydd â buddiant mewn cynlluniau ariannol neu benderfyniadau unigol yn cael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae hyn yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd cyngor yn gwneud penderfyniadau nad ydynt yn ystyried eu hanghenion ac felly nad yw'n sicrhau gwerth am arian. |
| Cydweithio | • Nid yw cyfleoedd i gydweithio o fewn a rhwng cynghorau a phartneriaid eraill yn cael eu harchwilio. O ganlyniad, efallai y bydd cyfleoedd i wella gwerth am arian trwy ddarbodion maint, mwy o gydnerthedd a deilliannau gwell yn cael eu colli. |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru


70 Gallai gwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn gliriach mewn prosesau cynllunio ariannol helpu cynghorau i ddatblygu dull tymor hwy, mwy cyfannol o fynd ar drywydd cynaliadwyedd ariannol sy'n cael ei oleuo gan weithgarwch cynnwys parhaus. Mae hyn yn arbennig o bwysig os yw maint yr heriau ariannol yn golygu bod angen newidiadau mwy sylfaenol i'r modd y darperir gwasanaethau trwy, er enghraifft, fwy o gydweithio, trosglwyddo asedau i grwpiau cymunedol neu roi'r gorau i ddarparu rhai gwasanaethau'n gyfan gwbl.

**Dull tymor hwy o wneud gwaith cynllunio ariannol a gwneud penderfyniadau**

71 Yn ein hadolygiad, rydym wedi mabwysiadu diffiniadau CIPFA o raddfeydd amser ym maes cynllunio ariannol. Disgwylir i gynlluniau ariannol tymor canolig osod y cyfeiriad dros o leiaf dair blynedd, gan adeiladu ar y broses ar gyfer pennu cyllideb flynyddol. Mae hyn o fewn cynllun strategol tymor hwy sy'n adeiladu ar yr olwg tair blynedd hyd at ddegawd o leiaf (**Arddangosyn 4**). Yn gyffredinol, canfuom nad yw cynghorau yng Nghymru'n defnyddio'r dull tymor hwy hwn.

**Arddangosyn 4: graddfeydd amser ym maes cynllunio ariannol**

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos y graddfeydd amser y dylai gwahanol fathau o gynlluniau ariannol eu cwmpasu a'r graddfeydd amser awgrymedig y gallent eu cwmpasu ym marn CIPFA.




Ffynhonnell: CIPFA

72 Mae'r graddfeydd amser a nodir gan CIPFA yn mynd y tu hwnt i gylchoedd etholiadol a phroses flynyddol y gyllideb. Rydym yn cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â chymhwyso graddfeydd amser o'r fath i wneud penderfyniadau; fodd bynnag, mae'n angenrheidiol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol tymor hwy.

# Trosolwg o sefyllfaoedd ariannol a chyllid cynghorau

73 Yn yr adran hon rydym yn nodi'r cyd-destun ariannol diweddar y mae cynghorau'n gweithredu ynddo a sut y mae hyn wedi effeithio ar gyllid ar gyfer gwasanaethau.

74 Llywodraeth Cymru yw cyllidwr mwyaf cynghorau Cymru. Er bod y ganran yn amrywio o un flwyddyn i'r llall, ers 1999-2000, mae tua 72% o gyllid cynghorau wedi bod yn dod oddi wrth Lywodraeth Cymru, gydag ardrethi busnes a'r dreth gyngor yn rhoi cyfrif am tua 12% ac 16% yn y drefn honno.[12]

75 Ar ôl argyfwng ariannol byd-eang 2008, fe wnaeth gallu llywodraeth leol i wario wastatau ac yna gostwng. Dibynnodd cynghorau ar ystod o fesurau i reoli eu sefyllfa ariannol, gan gynnwys cynyddu lefelau'r Dreth Gyngor, defnyddio cronfeydd wrth gefn, a gostyngiadau mewn gwariant. Yn ôl y gyfraith, rhaid i gynghorau bennu cyllideb flynyddol fantoledig.

76 Yn ystod pandemig Covid-19[13], fe drefnwyd fod cyllid ychwanegol ar gael i gefnogi cynghorau. Roedd hyn yn cynnwys grantiau penodol ar gyfer digartrefedd, gwrthbwyso gostyngiadau mewn ardrethi busnes, a chyllid cymorth cyffredinol. Helpodd y cyllid hwn gynghorau i gynnal ac addasu gwasanaethau yn ystod y pandemig, ac fe wnaeth hefyd helpu cynghorau i gynyddu lefelau eu cronfeydd wrth gefn i raddau amrywiol.


77 Rhwng 2005-06 (y flwyddyn gynharaf y mae data cymharol ar gael ar ei chyfer) a 2022-23, fe wnaeth gwariant mewn termau real gan gynghorau gynyddu 11% (**Arddangosyn 5**). Mewn cymhariaeth, dros yr un cyfnod tyfodd cyllideb rhaglen GIG Cymru 60% mewn termau real.[14]

12 Dadansoddiad Archwilio Cymru o ystadegau Data alldro refeniw cynghorau, gan Lywodraeth Cymru

13 Yn ystod y pandemig, fe wnaethom sylwadau ar yr effaith ariannol ar gynghorau ddwywaith ym mis Hydref 2020 a mis Medi 2021. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi Darlun o Lywodraeth Leol ym mis Medi 2021.

14 Dadansoddiad Archwilio Cymru o ystadegau gwariant y GIG, data cyn 2010 a data ar ôl 2010, gan Lywodraeth Cymru

**Arddangosyn 5: gwariant refeniw gros gan bob cyngor mewn termau real, rhwng 1999-2000 a 2022-23 (prisiau Mehefin 2024) (£biliynau)**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata alldro refeniw cynghorau Llywodraeth Cymru

78 Mae lefelau'r Dreth Gyngor yn cael eu pennu gan bob cyngor. Wrth bennu lefelau'r Dreth Cyngor, rhaid i gynghorau ystyried ystod o ffactorau, er enghraifft yr effaith ariannol ar drigolion, sefyllfa ariannol y cyngor, ac anghenion defnyddwyr gwasanaethau. Mewn termau real, rhwng 1999-2000 a 2023-24 fe wnaeth lefelau Treth Gyngor Band D cyfartalog yng Nghymru gynyddu 66% neu £812.[15] Mae'r gyfran o wariant cynghorau a gyllidir gan y Dreth Gyngor wedi aros yn weddol debyg dros amser. Yn 1999-2000, roedd y Dreth Gyngor yn cyllido tuag 16% o wariant gros gan gynghorau yn genedlaethol o'i gymharu â rhyw 18% yn 2023-24.[16]

79 Mae Tabl 2 yn dangos sut y mae cyllid y pen o'r boblogaeth yn amrywio rhwng cynghorau a phob math o ffynhonnell gyllido. Cynhwysir hyn er mwyn rhoi gwybodaeth gyd-destunol yn hytrach na chasgliad ynghylch yr amgylchiadau neu'r penderfyniadau sy'n ymwneud ag unrhyw gyngor unigol.

15 Llywodraeth Cymru, Treth gyngor band D gyfartalog

16 Mae cyfran y gwariant lleol a gyllidir gan y Dreth Gyngor yn amrywio rhwng cynghorau.

**Tabl 2: y dreth gyngor sy'n ofynnol, Grant Cynnal Refeniw (RSG), ac Ardrethi Annomestig wedi'u Hailddosbarthu (RNDR) y pen o'r boblogaeth fesul cyngor, 2023-24 (Punnoedd)**

| Cyngor | Y Dreth Gyngor sy'n ofynnol | RSG a Chyllid atodol | Ardrethi annomestig wedi'u hailddosbarthu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Gwynedd | £780 | £1,585 | £329 | £2,693 |
| Blaenau Gwent | £574 | £1,747 | £327 | £2,648 |
| Sir Ddinbych | £672 | £1,612 | £324 | £2,607 |
| Merthyr Tudful | £582 | £1,700 | £325 | £2,606 |
| Castell-nedd Port Talbot | £611 | £1,609 | £327 | £2,547 |
| Ynys Môn | £707 | £1,455 | £329 | £2,492 |
| Rhondda Cynon Taf | £533 | £1,634 | £320 | £2,487 |
| Ceredigion | £716 | £1,432 | £337 | £2,484 |
| Conwy | £732 | £1,399 | £337 | £2,468 |
| Powys | £765 | £1,366 | £335 | £2,466 |
| Sir Gâr | £630 | £1,454 | £326 | £2,411 |
| Torfaen | £560 | £1,525 | £321 | £2,405 |
| Caerffili | £474 | £1,603 | £324 | £2,401 |
| Sir Benfro | £662 | £1,374 | £327 | £2,364 |

| Cyngor | Y Dreth Gyngor sy'n ofynnol | RSG a Chyllid atodol | Ardrethi annomestig wedi'u hailddosbarthu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Pen-y-bont ar Ogwr | £648 | £1,380 | £325 | £2,353 |
| Casnewydd | £517 | £1,459 | £310 | £2,287 |
| Sir y Fflint | £665 | £1,291 | £326 | £2,282 |
| Abertawe | £582 | £1,375 | £320 | £2,277 |
| Wrecsam | £597 | £1,329 | £323 | £2,248 |
| Bro Morgannwg | £703 | £1,188 | £318 | £2,208 |
| Sir Fynwy | £826 | £967 | £330 | £2,123 |
| Caerdydd | £546 | £1,239 | £308 | £2,094 |
| Cymru | £620 | £1,422 | £323 | £2,365 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth Cymru, amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, Treth Gyngor, a chymorth llywodraeth

Nodiadau: Er bod cynghorau'n casglu ardrethi annomestig yn lleol, maent yn cael eu hailddosbarthu gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r setliad cyllido blynyddol. O ganlyniad, mae rhai cynghorau'n fuddiolwyr net neu'n gyfranwyr net i'r 'gronfa' gyllid.

Mae cyllid atodol yn gyllid ychwanegol a ddarperir i sicrhau bod cynghorau'n cael isafswm cynnydd canrannol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.


Mae'r gofyniad o ran y dreth y cyngor yn cynnwys praeseptau'r Cynghorau Tref a Chymuned a'r Heddlu sydd y tu hwnt i reolaeth Prif Gynghorau.

80 Mewn termau real, rhwng 1999-2000 a 2023-24 cododd lefelau Treth Gyngor band D cyfartalog 66% neu £812.[17]

81 Mae'r gyfran o wariant y cyngor a gyllidir gan y Dreth Gyngor wedi aros yn weddol debyg dros amser. Yn 1999-2000, roedd y Dreth Gyngor yn cyllido tuag 16% o wariant gros gan gynghorau o'i gymharu â rhyw 18% yn 2023-24.

17 Llywodraeth Cymru, Treth gyngor band D gyfartalog

**Arddangosyn 6: y dreth gyngor, RSG, ac RNDR y pen mewn termau real yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, rhwng 1999-2000 a 2023-24 (Punnoedd)**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth Cymru amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, Treth Gyngor, a chymorth llywodraeth


82 Gall cynghorau fantoli eu gwariant trwy ddefnyddio gwahanol fathau o gronfeydd wrth gefn. Mae tri phrif fath o gronfa wrth gefn:

- cronfa wrth gefn ddefnyddiadwy a chyffredinol – mae hon yn gronfa wrth gefn y gellir ei defnyddio fel y dymuna cyngor ac nad yw wedi'i neilltuo at ddiben penodol.
- cronfa wrth gefn ddefnyddiadwy ac wedi'i chlustnodi – mae hon yn gronfa wrth gefn y gellir ei defnyddio fel y dymuna cyngor ond sydd wedi'i neilltuo at ddiben penodol, megis costau ased yn y dyfodol. Yn ymarferol gall defnyddio'r cronfeydd wrth gefn hyn i ategu gwariant refeniw fod yn broblem os na chânt eu defnyddio at eu diben gwreiddiol.
- cronfa wrth gefn annefnyddiadwy – mae hon yn fath o gronfa wrth gefn nad yw wedi'i hategu gan arian parod ac felly na ellir ei defnyddio'n rhydd, naill ai oherwydd y gyfraith neu ei sail gyfrifyddu, megis cronfa wrth gefn ailbrisio. Gall hyn fod yn un o ofynion safonau cyfrifyddu rhyngwladol neu'r gyfraith.

83 Dim ond unwaith y gellir defnyddio cronfeydd wrth gefn ac maent yn adnodd y mae pen draw iddo. Am y rheswm hwn, maent yn aml yn cael eu hystyried yn ddewis olaf neu'n fath o yswiriant ar gyfer cynghorau. Mae hyn yn gwneud defnyddio ac ailgyflenwi cronfeydd wrth gefn mewn modd cynaliadwy'n ddangosydd allweddol ar gyfer cynaliadwyedd ariannol.

84 Dengys ein dadansoddiad ni fod lefelau cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy heb gyfyngiadau cyfreithiol[18] wedi bod yn gyson i raddau helaeth dros amser cyn cynyddu'n sylweddol yn ystod y pandemig (**Arddangosyn 7**). Ar gyfer Cymru ar y cyfan, cynyddodd cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy heb gyfyngiadau cyfreithiol o oddeutu £1.1 biliwn yn 2019-20 i fwy na £2.1 biliwn yn 2021-22. Er iddynt leihau yn 2022-23, roedd cyfanswm cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn dal i fod yn fwy na £2 biliwn neu 27% o gyfanswm cost gwasanaethau. Mae hwn yn adnodd arwyddocaol i dynnu arno. Fodd bynnag, mae sefyllfa cynghorau unigol, ac i ba raddau y gall y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd gael eu hailbwrpasu'n hawdd, yn amrywio'n sylweddol. Yn 2022-23, roedd cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi'n rhoi cyfrif am 87% o gyfanswm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy heb gyfyngiadau cyfreithiol a oedd gan gynghorau.

**Arddangosyn 7: cyfanswm cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio heb gyfyngiadau cyfreithiol a ddelir gan gynghorau Cymru, rhwng 2015-16 a 2022-23 (£ biliynau)**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o gyfrifon cynghorau

18 Rydym yn diffinio hyn fel 'y cronfeydd wrth gefn hynny y gellir eu cymhwyso i ddarparu gwasanaethau, naill ai trwy ysgwyddo costau neu ar gyfer buddsoddiad cyfalaf, ni waeth pa un a oes cyfyngiadau ar union beth ellir cymhwyso'r adnoddau iddo'. Cyfanswm y gronfa gyffredinol, cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a balansau ysgolion yw hyn. Nid yw'n cynnwys cronfeydd wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai, derbyniadau cyfalaf na grantiau cyfalaf nas cymhwyswyd.

85 Mae lefel y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fel cyfran o gost net gwasanaethau, yn ogystal â dangosyddion ariannol eraill, yn amrywio'n sylweddol ar draws cynghorau. Mae ein hofferyn data cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol yn cymharu lefel y cronfeydd wrth gefn ar draws cyrff llywodraeth leol ers 2015-16. Yn 2022-23, roedd gan saith cyngor gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy heb gyfyngiadau cyfreithiol sy'n cyfateb i lai nag 20% o gost net gwasanaethau. Yn seiliedig ar gyfrifon drafft a ddarparwyd i ni ar gyfer 2023-24 ar adeg cyhoeddi, mae gan ddau gyngor gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy heb gyfyngiadau cyfreithiol sy'n cyfateb i oddeutu 10% o gost net gwasanaethau. Mae gan bum cyngor arall lai nag 20% o gost net gwasanaethau mewn cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy heb gyfyngiadau cyfreithiol.

**Tabl 3: newid mewn cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy heb gyfyngiadau cyfreithiol rhwng 2022-23 a 2023-24 (£miliwn)**

| Cyngor | Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy 2022-23 £ miliwn | Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy 2023-24 £ miliwn | Newid (%) | Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fel cyfran o gost net gwasanaethau 2022-23 | Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fel cyfran o gost net gwasanaethau 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 47 | Ddim ar gael | Ddim ar gael | 30% | |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 103 | 76 | -26% | 30% | 21% |
| Caerffili | 165 | 134 | -19% | 39% | 29% |
| Caerdydd | 163 | 151 | -7% | 19% | 17% |
| Sir Gâr | 170 | 149 | -12% | 38% | 30% |
| Ceredigion | 56 | 51 | -9% | 32% | 25% |
| Conwy | 43 | 43 | 2% | 16% | 15% |
| Sir Ddinbych | 65 | Ddim ar gael | Ddim ar gael | 27% | |
| Sir y Fflint | 50 | 38 | -23% | 15% | 11% |

| Cyngor | Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy 2022-23 £ miliwn | Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy 2023-24 £ miliwn | Newid (%) | Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fel cyfran o gost net gwasanaethau 2022-23 | Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fel cyfran o gost net gwasanaethau 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwynedd | 123 | 118 | -4% | 40% | 36% |
| Ynys Môn | 40 | 39 | -5% | 24% | 21% |
| Merthyr Tudful | 38 | Ddim ar gael | Ddim ar gael | 27% | |
| Sir Fynwy | 27 | 19 | -30% | 14% | 9% |
| Castell-nedd Port Talbot | 91 | 74 | -19% | 25% | 19% |
| Casnewydd | 129 | 121 | -6% | 40% | 33% |
| Sir Benfro | 83 | 81 | -2% | 28% | 25% |
| Powys | 64 | 69 | 8% | 20% | 20% |
| Rhondda Cynon Taf | 225 | 215 | -4% | 36% | 32% |
| Abertawe | 179 | 158 | -12% | 31% | 27% |
| Torfaen | 42 | 41 | -4% | 19% | 17% |
| Bro Morgannwg | 95 | 75 | -21% | 30% | 22% |
| Wrecsam | 38 | 37 | -3% | 12% | 11% |
| Cymru | 2,037 | | | 27% | |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o gyfrifon anarchwiliedig

Nodyn: Ar adeg cyhoeddi, nid oedd yr holl gyfrifon ar gyfer 2023-24 wedi dod i law. Lle nad oeddent wedi dod i law, nodir y cofnodion yn y tabl uchod

## Disgwyliadau'r cyhoedd a chyfathrebu gyda hwy

86 Mae cynghorau'n cydbwyso pwysau ariannol yn erbyn disgwyliadau eu cymunedau. Gall hyn fod yn gryn her. Er nad oes unrhyw arolwg yn casglu disgwyliadau na boddhad trigolion ledled Cymru, mae data'n cael ei gasglu yn Lloegr. Er enghraifft, mewn arolwg ym mis Mehefin 2024, er bod y rhan fwyaf o ddinasyddion yn fodlon ar eu cynghorau (55%) dim ond 38% oedd yn credu eu bod yn rhoi gwerth am arian. Mae hyn yn awgrymu bwlch o ran y disgwyliadau rhwng yr hyn y mae trigolion yn ei dalu am wasanaethau a'u barn ynglŷn â'r gwasanaethau y maent yn eu cael.

87 Mae cynghorau hefyd yn wynebu'r her, ar unrhyw adeg, efallai na fydd llawer o drethdalwyr cyngor penodol yn cael y gwasanaethau sy'n rhoi cyfrif am gyfran sylweddol o wariant y cyngor hwnnw, fel gwasanaethau cymdeithasol ac addysg. Mae hyn yn cyflwyno her gyfathrebu i gynghorau esbonio pam a sut y caiff eu cyllid ei ddyrannu a chael cefnogaeth y cyhoedd ar gyfer penderfyniadau ariannol a allai fod yn amhoblogaidd, er enghraifft lle mae hyn yn golygu lleihau neu ddileu gwasanaethau o bosibl, neu gynyddu taliadau amdanynt.

## Ers 2008 mae rhai gwasanaethau wedi gweld toriadau sylweddol i wariant tra bo'r gwariant ar eraill wedi cynyddu

88 Gan bod cynghorau wedi wynebu pwysau ar eu hincwm ar y cyfan, mae gwariant mewn rhai gwasanaethau wedi lleihau (**Arddangosyn 8**).

**Arddangosiad 8: enghreifftiau o wasanaethau â newidiadau cyfrannol mewn gwariant net mewn termau real gan gynghorau Cymru, rhwng 2008-09 a 2023-24 (prisiau Mehefin 2024)**

Mae'r graffig hwn yn dangos y newid gwirioneddol mewn gwariant ar wasanaethau gan gynghorau rhwng 2008-09 a 2023-24.

Gwasanaethau cymdeithasol plant a theuluoedd +94%
Amddiffynfeydd rhag llifogydd a draenio +92%
Amddiffyn yr arfordir +91%
Cymorth i fusnesau +74%
Gofal cymdeithasol i bobl hŷn +31%
Gofal cymdeithasol oedolion (dros 65 oed) +27%
Rheoli gwastraff +15%
Ysgolion +8%

Diogelwch cymunedol -62%
Rheoli datblygu -45%
Gwasanaethau diwylliant a threftadaeth -41%
Llyfrgelloedd -41%
Cynllunio -41%
Safonau masnach - 38%
Priffyrdd a heolydd -37%
Tai -21%

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth Cymru

89 Mae gwasanaethau sy'n darparu gwasanaethau rheoleiddio neu ataliol yn aml wedi profi toriadau i flaenoriaethu cyllid ar gyfer anghenion byrdymor a/neu wasanaethau statudol. Rydym yn cydnabod y gall blaenoriaethu cyllid ar gyfer gwasanaethau ataliol fod yn gryn her. Fodd bynnag, dros y tymor hwy, gall buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol wella cynaliadwyedd ariannol trwy ddarparu gwell gwerth am arian yn ogystal â gwella deilliannau i drigolion.


## Nododd cynghorau nifer o heriau ariannol cyffredin a sylweddol

90 Yn ystod ein gwaith maes, amlinellodd cynghorau rai o'r heriau ariannol allweddol sy'n effeithio ar eu cynaliadwyedd ariannol. Rydym wedi amlinellu rhai o'r rhain isod. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr a byddant yn effeithio ar gynghorau unigol i raddau amrywiol.

### Chwyddiant a'r argyfwng costau byw

91 Roedd chwyddiant, sef cyfradd y cynnydd mewn prisiau bob blwyddyn, yn gymharol gyson ar oddeutu 2% trwy ddau ddegawd cyntaf y mileniwm newydd (**Arddangosyn 9**). Cododd yn ddramatig tuag at ddiwedd 2021, gan gyfrannu at gostau byw llawer uwch a chynyddu cost darparu gwasanaethau llywodraeth leol.

**Arddangosyn 9: Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys costau tai perchentywyr (CPIH) - y gyfradd flynyddol ar gyfer pob eitem, rhwng mis Ionawr 1999 a mis Mehefin 2024**





Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)

92 Roedd cynghorau'n wynebu'r un pwysau ar eu gwariant eu hunain o ganlyniad i brisiau cynyddol, gan weld cynnydd mawr mewn costau ynni, er enghraifft. Felly gan bod nifer o drigolion yn troi at gynghorau am gymorth ychwanegol, roedd y cynghorau eu hunain dan fwy byth o bwysau ariannol.

## Gofal cymdeithasol

93 Mae amcanestyniadau poblogaeth yn dangos bod disgwyl i ddisgwyliad oes barhau i gynyddu, ynghyd â chyfran y bobl hŷn yn y boblogaeth. Mae hyn yn debygol o gynyddu'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus fel gwasanaethau gofal cymdeithasol (**Arddangosyn 10**).

**Arddangosyn 10: amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol Cymru, rhwng 2023 a 2073 (sail 2021)**




Ffynhonnell: ONS

94 Mae'r galw uwch am rai gwasanaethau sy'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio hefyd yn fwy i rai cynghorau oherwydd sut y mae'r boblogaeth yn symud yn fewnol. Gall hyn gynnwys pobl ifanc yn symud i ardaloedd trefol ar gyfer gwaith neu addysg, ond hefyd pobl hŷn yn symud i ardaloedd mwy gwledig neu ar lan y môr ar ôl ymddeol. Gall hyn ei gwneud hi'n anos i gynghorau ragweld y galw am wasanaethau.

95 Rhwng mis Ionawr 2023 a mis Mehefin 2024, cynyddodd nifer y trigolion sy’n oedolion sy’n cael gofal preswyl neu ofal cartref neu gymorth ailalluogi 6.6% i 32,062.[19] Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae gwariant ar ofal cymdeithasol wedi cyflymu oherwydd cynnydd yn y galw ac mewn cymhlethdod. Fel a ddangosir yn **Arddangosyn 8**, mae gwariant ar ofal cymdeithasol i blant, oedolion a phobl hŷn wedi cynyddu 94%, 27%, a 31% yn y drefn honno mewn termau real ers 2008-09.

96 Yn ddiweddarach eleni, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi canfyddiadau yn dilyn ei adolygiad o ofal brys ac argyfwng – llifoedd allan o’r ysbyty, ac effaith hynny ar gynghorau a byrddau iechyd.

97 Mae cynghorau’n gyfrifol am ofalu am rai plant o fewn eu darpariaeth gofal cymdeithasol. Unwaith y bydd plentyn wedi bod mewn gofal am dros 24 awr, caiff ei ystyried yn Blentyn sy’n Derbyn Gofal (CLA). Mae nifer y Plant sy’n Derbyn Gofal wedi cynyddu’n raddol dros amser. Erbyn 2023, roedd data Llywodraeth Cymru’n dangos bod cynghorau’n gofalu am 7,210 o Blant sy’n Derbyn Gofal - cynnydd o 79% ers 2003.[20]

98 Roedd chwarter y Plant sy’n Derbyn Gofal yn 2023 wedi’u cartrefu yng Nghymru ond y tu allan i ardal eu cyngor, a 6.5% arall yn wedi’u cartrefu y tu allan i Gymru’n gyfan gwbl. Gall capasiti annigonol olygu bod cynghorau’n ysgwyddo costau ychwanegol gan ei bod yn farchnad gystadleuol gyda nifer gyfyngedig o leoliadau. Gall lleoli plant y tu allan i’r sir gael effaith niweidiol ar y plant hynny yn ogystal â chynyddu costau i gynghorau. Rydym wedi clywed yn anecdotaidd gan gynghorau y gall lleoliadau sydyn, brys arwain at gostau sylweddol uchel - yn enwedig mewn achosion ag anghenion cymhleth.

99 Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru’n cynnwys ymrwymiad i ddileu elw o’r sector Plant sy’n Derbyn Gofal. Fel rhan o’r polisi hwn[21], ei nod yw bod llai o blant yn mynd i mewn i’r system ofal a chyfyngu cwmnïau sy’n gallu darparu llety i’r rhai di-elw. Clywsom bryderon gan gynghorau am effaith bosibl y polisi ar gapasiti a chostau. Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP) wedi adnabod[22] ystod o oblygiadau a allai ddeillio o’r polisi, sy’n debygol o effeithio ar gynghorau.

19 Data dangosfwrdd gofal cymdeithasol Llywodraeth Cymru

20 Llywodraeth Cymru, Plant sy’n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol

21 Llywodraeth Cymru, Dileu elw o ofal plant sy’n derbyn gofal, Gorffennaf 2024

22 Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Barn arbenigol ar ddileu elw o ofal plant sy’n derbyn gofal, Mai 2024

## Tai

100 Mae gan gynghorau amrywiaeth o ddyletswyddau tai ac atal digartrefedd. Mewn termau real, er bod gwariant o gyllidebau refeniw cynghorau[23] ar dai wedi gostwng 21% ers 2008-09, mae tai yn gyson wedi bod y trydydd maes gwariant mwyaf gan gynghorau ar ôl addysg.[24]

101 Defnyddir llety dros dro i ddarparu tai interim i drigolion sy'n wynebu digartrefedd. Mae hyn yn aml yn gallu bod ar ffurf gwestai neu hosteli am nad oes digon o gartrefi sy'n eiddo i'r cyngor i ateb y galw. Felly, mae cystadleuaeth yn y farchnad ehangach yn gallu effeithio ar gostau darparu'r llety hwn hefyd. O ran y sefyllfa ym mis Mai 2024, roedd 11,591 o unigolion wedi'u cartrefu dros dro gan gynghorau yng Nghymru, yr oedd 3,003 ohonynt yn blant.[25]

102 Mae hwn yn bwysau sylweddol o ran costau a all fod yn anodd i'w ragweld oherwydd ei sensitifrwydd i'r farchnad rentu a'r economi ehangach. Yn y flwyddyn hyd at fis Awst 2024, canfu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol fod rhenti misol preifat wedi cynyddu 8.5% yng Nghymru.[26] Daeth hyn yn dilyn newidiadau i reoliadau rhentu preifat ym mis Rhagfyr 2022 o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Mae'r ddau newid wedi cael eu dyfynnu gan swyddogion cynghorau fel ffactorau sy'n ychwanegu pwysau ychwanegol ar eu gwasanaethau, yn ogystal â chostau cynyddol o ran cefnogi trigolion mewn eiddo rhent preifat.

103 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal astudiaeth llywodraeth leol sy'n canolbwyntio ar lety dros dro ac mae'n bwriadu adrodd ar hyn yn gynnar yn 2025.

## Addysg

104 Yn gyffredinol, mae cynghorau'n darparu cyllid i ysgolion unigol, sydd wedyn yn pennu cyllideb. Gelwir y rhain yn gyllidebau dirprwyedig ysgolion. Lle mae gan ysgolion gyllid heb ei wario, gallant greu cronfeydd wrth gefn y cyfeirir atynt yn gyffredin fel 'balansau ysgolion'. Yn ystod y gwaith maes, clywsom bryderon am effaith yr arbedion gofynnol a'r gostyngiad o ganlyniad ym malansau ysgolion. Yn 2023-24, parhaodd balansau ysgolion i leihau'n sydyn i gyfanswm o £115 miliwn yn genedlaethol - sy'n cyfateb i £253 y dysgwr.[27] O ganlyniad, roedd gan 21% o ysgolion falansau negyddol a bu arnynt angen cymorth ychwanegol gan gynghorau.

23 Nid yw hyn yn cynnwys Cyfrifon Refeniw Tai (HRAs) lle mae cyngor wedi cadw ei stoc dai ei hun.

24 Mae hyn i'w briodoli'n rhannol i ddosbarthiad gofal cymdeithasol yn ôl oedran.

25 Llywodraeth Cymru, Unigolion digartref a roddwyd mewn llety dros dro ar ddiwedd y cyfnod yn ôl ardal awdurdod lleol

26 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Private rent and house prices, UK: September 2024

27 Llywodraeth Cymru, Cronfeydd wrth gefn a ddelir gan ysgolion yng Nghymru ar 31 Mawrth 2024 (Saesneg yn unig)

105 Mae Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), lle mae gan berson anhawster neu anabledd dysgu sy'n golygu bod angen cymorth ychwanegol, yn bwysau allweddol o ran costau i ysgolion. Cafodd y system anghenion dysgu ychwanegol ei diwygio yn dilyn deddfwriaeth yn 2018. Mae newidiadau wedi cael eu cyflwyno'n raddol ers 2021/22 gyda phob disgybl ysgol wedi'u cynnwys yn y trefniadau newydd erbyn 2025/26. Mae'r term 'ADY' wedi disodli'r hen derm 'Anghenion Addysgol Arbennig' (AAA) ond yr un yw'r diffiniad yn y bôn.

106 Ers 2021, mae cyfran y disgyblion mewn ysgolion a gyllidir gan gynghorau wedi gostwng yn sylweddol. Fe wnaeth cyfran y disgyblion ag AAA/ADY haneru o 22.6% i 11.2% rhwng 2013/14 a 2023/24.[28] Fodd bynnag, er gwaethaf gostyngiad yn y galw, mae'r costau wedi parhau i gynyddu. Ceir ansicrwydd ynghylch achos y gostyngiad.

107 Cynyddodd gwariant net o gyllidebau dirprwyedig ysgolion ar ADY 13.4% mewn termau real rhwng 2013-14 a 2023-24. Roedd hyn yn gyfanswm o 4.8% o wariant net cyllidebau dirprwyedig ysgolion yn 2023-24 - i fyny o 4.3% yn 2013-14.[29] Mae'r gwariant ar ADY o gyllidebau cynghorau wedi codi 20.7% dros yr un cyfnod. Byddai hyn yn ategu'r farn, er gwaethaf dirywiad yng nghyfran y disgyblion y nodwyd fod ganddynt ADY, bod costau a chymhlethdod rhoi cymorth i ddysgwyr ag ADY yn her sylweddol i ysgolion. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn adolygu ADY fel astudiaeth genedlaethol yn y dyfodol.

108 Mae costau AAA yn bwysau cyllidebol allweddol i gynghorau ledled y DU. Er enghraifft, mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i 'gytundebau falf diogelwch' gyda 38 o gynghorau ers 2020-21 i gefnogi gwasanaethau AAA. Mae hyn i bob pwrpas yn 'dileu' diffygion cyllidebol sydd gan wasanaethau, gydag amodau y cytunwyd arnynt rhwng y cyngor a Llywodraeth y DU. Nid oes trefniadau o'r fath ar waith yng Nghymru.

109 Mae gan gynghorau gyfrifoldebau cyfreithiol am gludiant rhwng y cartref a'r ysgol ar gyfer rhai dysgwyr. Mae'r broses asesu a'r trothwyon ar gyfer darparu cludiant wedi'u nodi mewn cyfraith ac maent yn ymwneud yn bennaf â'r pellter rhwng y cartref a'r ysgol addas agosaf.Ni ellir codi tâl ar ddysgwyr sydd â hawl i'r gwasanaethau hyn. Gall cynghorau amrywio polisi lleol i gynnwys mwy o ddisgyblion a gallant godi tâl am y gwasanaeth dewisol hwn, er enghraifft ar gyfer cludiant i ysgolion crefyddol neu Gymraeg heblaw'r ysgol addas agosaf. Mae gwariant net cynghorau ar gludiant rhwng y cartref a'r ysgol wedi cynyddu 25% rhwng 2013-14 a 2023-24 mewn termau real.

28 Llywodraeth Cymru, Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion

29 Dadansoddiad Archwilio Cymru o ystadegau Llywodraeth Cymru, Gwariant alldro refeniw addysg

## Buddsoddiad cyfalaf

110 Rhaid i gynghorau gydbwyso buddsoddiad cyfalaf i gyflawni amcanion a darparu gwasanaethau ochr yn ochr â chynaliadwyedd ariannol. Gall rhaglenni cyfalaf gynnwys gwella neu adeiladu asedau, megis ffyrdd, adeiladau swyddfeydd, neu ysgolion.

111 Fel gyda gwariant refeniw, gall cynghorau ddefnyddio ffynonellau cyllid gwahanol ar gyfer eu rhaglen gyfalaf. Yn wahanol i gyllidebau refeniw, gall cynghorau gael benthyg arian hefyd. Mae gan bob ffynhonnell fenthyca risgiau o wahanol fathau a meintiau, gan olygu bod mynd ati i ystyried a goruchwylio rhaglenni cyfalaf mewn modd gweithredol yn hanfodol i gynaliadwyedd ariannol. Mae ystyried goblygiadau buddsoddiad cyfalaf ar gyfer y gyllideb refeniw yn bwysig i sicrhau cynaliadwyedd ariannol yn y tymor hir.

112 Yn ddiweddar rydym wedi ychwanegu data ar fenthyciadau at ein hofferyn data llywodraeth leol i ychwanegu mewnwelediad i'r maes hwn. Yn nhermau arian parod, tyfodd cyfanswm y benthyciadau rhwng 2020-21 a 2022-23 ychydig, sef 4%, i gyfanswm o £6.3 biliwn. Mae benthyciadau'n amrywio o ran eu maint rhwng cynghorau, gan adlewyrchu eu rhaglenni cyfalaf a'u parodrwydd i dderbyn risg ( Tabl 4).

**Tabl 4: cyfanswm benthyciadau cynghorau ac fel canran o gost net gwasanaethau a chronfeydd wrth gefn defnyddiadwy heb gyfyngiadau cyfreithiol, 2023-24**

| Cyngor | Cyfanswm benthyciadau (£ miliynau) | Benthyciadau fel cyfran o gost net gwasanaethau | Benthyciadau fel cyfran o'r cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy heb gyfyngiadau cyfreithiol |
|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent* | 190 | 107% | 405% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 122 | 33% | 160% |
| Caerffili | 321 | 70% | 239% |
| Caerdydd | 903 | 99% | 596% |
| Sir Gâr | 413 | 82% | 276% |


| Cyngor | Cyfanswm benthyciadau (£ miliynau) | Benthyciadau fel cyfran o gost net gwasanaethau | Benthyciadau fel cyfran o'r cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy heb gyfyngiadau cyfreithiol |
|---|---|---|---|
| Ceredigion | 112 | 56% | 221% |
| Conwy | 250 | 84% | 577% |
| Sir Ddinbych* | 232 | 107% | 395% |
| Sir y Fflint | 339 | 93% | 885% |
| Gwynedd | 109 | 33% | 93% |
| Ynys Môn | 125 | 68% | 323% |
| Merthyr Tudful* | 127 | 89% | 331% |
| Sir Fynwy | 180 | 85% | 955% |
| Castell-nedd Port Talbot | 272 | 68% | 368% |
| Casnewydd | 190 | 52% | 158% |
| Sir Benfro | 179 | 56% | 221% |
| Powys | 338 | 97% | 487% |
| Rhondda Cynon Taf | 288 | 43% | 134% |
| Abertawe | 685 | 117% | 435% |
| Torfaen | 111 | 47% | 272% |
| Bro Morgannwg | 150 | 43% | 201% |
| Wrecsam | 522 | 158% | 1419% |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o gyfrifon anarchwiliedig

Nodyn: Ar adeg cyhoeddi, nid oedd yr holl gyfrifon ar gyfer 2023-24 wedi dod i law. O ganlyniad, mae ffigyrau 2022-23 wedi cael eu defnyddio ar gyfer Blaenau Gwent, Sir Ddinbych, a Merthyr Tudful.

113 Mae gwariant cyfalaf gan gynghorau wedi cynyddu'n raddol mewn termau real i ychydig dros £1.8 biliwn yn 2023-24. Mae wedi tyfu'n gyflymach na gwariant refeniw dros y cyfnod ers 1999-2000. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnal astudiaeth llywodraeth leol sy'n canolbwyntio ar gynllunio cyfalaf yn 2024-25.

**Arddangosyn 11: alldro gwariant cyfalaf gan gynghorau Cymru mewn termau real, 1999-2000 i 2023-24 (prisiau 2023-24)**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ystadegau Llywodraeth Cymru, gwariant alldro cyfalaf cynghorau

Sylwer: Mae ffigyrau 2015-16 i'w gweld yn chwyddedig o ganlyniad i brynu allan o'r cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai, a oedd â gwerth termau real o oddeutu £1.2 biliwn.

## Cynaliadwyedd amgylcheddol

114 Mae newid hinsawdd a materion amgylcheddol eraill yn effeithio'n uniongyrchol ar wariant cynghorau mewn tair prif ffordd. Yn gyntaf, gall polisi fynnu buddsoddiad yn yr ymateb, megis cyflwyno targedau ailgylchu. Mae gwariant ar reoli gwastraff gan gynghorau wedi cynyddu 15% ers 2008-09.

115 Yn ail, mae'n annog cynghorau i fuddsoddi mewn seilwaith i leihau allyriadau carbon er mwyn cyrraedd y targed sero-net cenedlaethol. Fel a amlinellwyd yn flaenorol[30], mae ansicrwydd sylweddol o hyd ynghylch gallu'r sector cyhoeddus i gyrraedd y targed hwn ac un elfen allweddol o hyn yw mynd i'r afael â'r cyllid y mae ei angen.

116 Yn drydydd, rhaid i gynghorau adweithio i effeithiau uniongyrchol mwy mynych newid hinsawdd. Er enghraifft, arweiniodd Stormydd Ciara, Dennis a Jorge yn 2020 at lifogydd mewn 3,120 o unedau eiddo domestig ac annomestig, gan arwain at ddifrod gwerth £81 miliwn yn ôl yr amcangyfrif.[31] Yn ogystal ag effeithio ar yr economi leol, gall y digwyddiadau hyn olygu bod angen ymatebion brys, fel tai a chymorth brys, yn ychwanegol at fynd i'r afael â difrod i eiddo'r cyngor. Wrth i effaith newid hinsawdd ddod yn fwy difrifol a mynych, nid yw'r pwysau ar gyllid cynghorau ond yn debygol o gynyddu. Gall hyn gynyddu'r angen am wariant ataliol, megis ar amddiffynfeydd rhag llifogydd.


30 Archwilio Cymru, Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030, Gorffennaf 2022

31 Cyfoeth Naturiol Cymru, Chwefror 2020 Llifogydd yng Nghymru, Hydref 2020


# Cynaliadwyedd ariannol ar dudalen

**Arddangosiad 12: graffigyn cynaliadwyedd ariannol**

Mae'r graffigyn hwn yn dangos y pwysau ar gynaliadwyedd ariannol cynghorau a dulliau posibl o ymateb iddynt.



- Effaith gronnus arbedion ers 2008
- Galw a disgwyliadau cynyddol
- Gofynion o ran pennu cyllidebau blynyddol
- Gofyn gwneud penderfyniadau anodd
- Materion y tu hwnt i reolaeth neu ddylanwad cynghorau
- Cronfeydd wrth gefn y mae pen draw iddynt
- Dichonoldeb codiadau yn y Dreth Gyngor




- Derbyn y sefyllfa ariannol a ddeellir
- Strategaeth ariannol eglur, wedi'i chyfleu
- Derbyniad a chefnogaeth eang i'r dull
- Cynlluniau realistig, hirdymor ar gyfer arbedion wedi'u cynllunio
- Rheoli risg ar sail asesiadau a chamau lliniaru eglur
- Deialog agored ar gyfer goruchwyliaeth
- Dysgu o ardaloedd eraill a chyda'i gilydd
- Rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith mewn modd ystyrlon

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

# Ein hadroddiadau lleol

**Arddangosyn 13: Adroddiadau cynaliadwyedd ariannol lleol a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru**




Ffynhonnell: Archwilio Cymru

# Canfyddiadau adroddiadau lleol

Yn yr adran hon rydym yn nodi ein prif gasgliadau a'n his-gasgliadau o bob un o'n hadroddiadau lleol.

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent**

Mae gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol, ond ni fydd y rhain ond yn effeithiol os yw'n gweithio'n gyflym i nodi, cymeradwyo a gweithredu digon o arbedion i leihau ei fwlch cyllido tymor canolig mewn ffordd gynaliadwy.

Canfuom hyn am y rhesymau canlynol:

- er bod strategaeth y Cyngor ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn canolbwyntio ar ddulliau gweithredu hirdymor, mae wedi gorfod defnyddio cronfeydd wrth gefn ac ystyried opsiynau arbedion tymor byr llai cynaliadwy i ateb yr her ariannol uniongyrchol.
- mae'r Cyngor yn deall ei sefyllfa ariannol tymor canolig a'r ffactorau sy'n dylanwadu arno er bod rhywfaint o ansicrwydd dros y tymor hwy.
- mae cyfrifoldebau clir ac adroddiadau monitro cyllideb addysgiadol yn cefnogi goruchwyliaeth effeithiol o sefyllfa ariannol y Cyngor, ond nid yw'n glir sut y gallai dull strategol y Cyngor o gynaliadwyedd ariannol effeithio ar gymunedau lleol.

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

Mae'r Cyngor yn deall ei sefyllfa ariannol gyda threfniadau da i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol y mae'n ei addasu a'i addasu ond ei fod yn gynnar yn datblygu ei ddull gweithredu hirdymor.

Canfuom hyn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor yn datblygu ei ddull gweithredu tymor hwy i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol, sy'n seiliedig ar drefniadau da i gynnwys swyddogion ac aelodau, ond nid yw wedi nodi sut y bydd yn cwrdd â'i holl fwlch cyllido a ragwelir.
- mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'i bwysau cyllideb allweddol a'i risgiau allweddol i'w gynaliadwyedd ariannol. Mae'r Cyngor yn cymryd camau i fynd i'r afael â'i bwysau cyllidebol drwy gyflwyno trefniadau i reoli a monitro risgiau unigol a phwysau cyllidebol.
- mae gan y Cyngor drefniadau cadarn i sicrhau bod aelodau'n cael gwybod yn rheolaidd am sefyllfa ariannol a rhagolygon y Cyngor, ac i aelodau ddarparu goruchwyliaeth a her. Mae'r Cyngor yn ystwyth wrth newid ei drefniadau mewn ymateb i risg uwch i'w gynaliadwyedd ariannol.

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Mae'r Cyngor yn deall ei sefyllfa ariannol tymor canolig ac mae ganddo ddull clir ond heb ei brofi i wella ei gynaliadwyedd ariannol. Fodd bynnag, mae ei drefniadau ar gyfer adrodd a goruchwylio, a modelu gofynion gwasanaethau yn y dyfodol yn gyfyngedig.

Canfuom hyn am y rhesymau canlynol:

- mae gan y Cyngor ddull strategol clir o wella ei gynaliadwyedd ariannol, ond nid yw wedi nodi sut y bydd yn cwrdd â'i fwlch cyllido tymor canolig. Yn y tymor byr, mae'r Cyngor wedi defnyddio cronfeydd wrth gefn ac arbedion dros dro i gwrdd â'i her ariannol uniongyrchol wrth iddo wreiddio ei ddull gweithredu tymor hwy.
- mae'r Cyngor yn deall ei sefyllfa ariannol tymor canolig, ond mae modelu gofynion gwasanaethau yn y dyfodol yn llai datblygedig, a allai effeithio ar gywirdeb y bwlch cyllidebol a nodwyd.
- prin yw'r adroddiadau, goruchwylio aelodau a chraffu ar sefyllfa ariannol y Cyngor a'i effaith.

### Cyngor Caerdydd

Mae gan y Cyngor drefniadau rhesymol i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol gyda dealltwriaeth glir o'i sefyllfa ariannol a'i adrodd yn rheolaidd i aelodau ond ei fod yng nghamau cynnar datblygu ei raglen newid i'w helpu i gyflawni ei fwlch cyllido sylweddol.

Canfuom hyn am y rhesymau canlynol:

- Mae'r Cyngor yng nghamau cynnar adolygu ei fodel darparu a gweithredu gwasanaethau, gan ddatblygu rhaglen newid i wella ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor.
- Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth glir o'i sefyllfa ariannol a maint ei heriau ariannol yn y dyfodol, y bydd yn eu defnyddio i danategu ei raglen newid i gwrdd â'r heriau hyn.
- Mae gan y Cyngor drefniadau adrodd effeithiol i alluogi aelodau i oruchwylio sefyllfa ariannol y Cyngor, ond nid yw'r Cyngor bob amser yn adrodd yn glir ar effeithiau ei benderfyniadau ariannol.

## Cyngor Sir Gâr

Mae dull trawsnewid y Cyngor sydd wedi ei wreiddio yn darparu fframwaith strategol i gefnogi ei gadernid ariannol yn gadarnhaol..

Canfuom hyn am y rhesymau canlynol:

- mae cyfuniad o strategaeth gyllidebol y Cyngor, ei waith cynllunio ariannol tymor canolig a'i ddull trawsnewid hirdymor sydd wedi ei wreiddio yn nodi fframwaith strategol ar gyfer ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor.
- mae gan y Cyngor ddealltwriaeth glir o'i bwysau a'i gostau cyllideb allweddol dros y tymor canolig.
- mae adroddiadau ariannol y Cyngor yn glir ond nid ydynt yn cael eu hintegreiddio'n rheolaidd ag adroddiadau ar gyflawni ei amcanion corfforaethol.

## Cyngor Sir Ceredigion

Mae gan y Cyngor drefniadau ar waith i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol presennol, ond nid oes ganddo strategaeth hirdymor i gefnogi hyn.

Canfuom hyn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor wedi gwneud penderfyniadau i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor byr i ganolig ond nid oes ganddo strategaeth ariannol hirdymor cynhwysfawr.
- cyflwynir Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn ystod canol y flwyddyn ariannol sicrhau ymgysylltiad cynnar ag Aelodau cyn gosod cyllideb fanwl prosesau. Mae tybiaethau yn cael eu diweddaru yn ystod y broses o bennu'r gyllideb i darparu asesiad cyfredol o ofynion tebygol y gyllideb.
- effeithiau monitro tymor hwy o gynaliadwyedd ariannol y Cyngor oherwydd ei ddiffyg strategaeth ariannol hirdymor gynhwysfawr. Fodd bynnag, mae trefniadau ar waith i gefnogi goruchwyliaeth gyllidebol reolaidd drwy ei hadroddiad cyfredol.

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Er bod gan y Cyngor drefniadau i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol, nid yw'r trefniadau hyn yn effeithiol wrth fynd i'r afael â maint ei fwlch cyllideb a'i gronfeydd wrth gefn isel, sy'n risg sylweddol i'w gynaliadwyedd hirdymor heb newid trawsnewidiol.

Canfuom hyn am y rhesymau canlynol:

- mae gan y Cyngor strategaeth glir a gwybodus sy'n cael ei chyfathrebu'n effeithiol, ond mae maint yr arbedion a nodwyd sydd eu hangen a'r lefel isel o gronfeydd wrth gefn yn peryglu ei strategaeth.
- mae gan y Cyngor ddealltwriaeth glir o'i sefyllfa ariannol, sy'n cynnwys rhai meysydd gwasanaeth sy'n ehangu'r galw a'r gost yn gyflym.
- mae gan y Cyngor ystod o drefniadau adrodd sy'n caniatáu craffu a sicrwydd i'r Aelodau.

## Cyngor Sir Ddinbych

Mae'r Cyngor yn ymgysylltu'n dda ag Aelodau a swyddogion wrth bennu ei gyllideb ond ar hyn o bryd nid oes ganddo ddull o ddod o hyd i arbedion digonol na chynllun trawsnewid wedi'i weithredu i bontio ei fwlch cyllid.

Canfuom hyn am y rhesymau canlynol:

- mae gan y Cyngor strategaeth glir ar gyfer ei gynaliadwyedd ariannol tymor canolig, sy'n cael ei gyfleu'n dda i Aelodau a swyddogion, ond sydd â gwendidau o ran sut mae'n nodi effeithlonrwydd ar hyn o bryd ac sydd ar gam cynnar o drawsnewid yn y tymor hwy.
- mae dealltwriaeth y Cyngor o'i sefyllfa ariannol yn glir, gyda chefnogaeth tybiaethau a risgiau a nodwyd. Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod ei ddefnydd diweddar o gronfeydd wrth gefn yn anghynaladwy wrth symud ymlaen.
- mae angen i'r Cyngor sicrhau bod ei drefniadau craffu a monitro yn darparu eglurder ar draws y Pwyllgorau cyfrifol a bydd angen iddynt adolygu effeithiolrwydd trefniadau adrodd ac olrhain a gyflwynwyd yn ddiweddar.

### Cyngor Sir y Fflint

Nid yw trefniadau'r Cyngor yn rhoi sicrwydd y gall nodi trawsnewidiad strategol yn y tymor byr a chanolig yn y raddfa sy'n ofynnol gan ei sefyllfa ariannol. Mae hyn, ynghyd â'i lefel isel o gronfeydd wrth gefn a chostau cynyddol mewn rhai meysydd gwasanaeth, yn rhoi cynaliadwyedd ariannol y Cyngor mewn perygl difrifol.

Canfuom hyn am y rhesymau canlynol:

- er bod y Cyngor wedi ymgysylltu'n dda ag aelodau, mae wedi cymryd ymagwedd tymor byr tuag at gynllunio ariannol manwl sydd wedi arwain at wendidau wrth nodi ac asesu arbedion, nad yw wedi edrych i fynd i'r afael â nhw.
- mae gan y Cyngor ddealltwriaeth glir o'i sefyllfa ariannol a'i bwysau.
- mae gan y Cyngor drefniadau da ar gyfer adrodd yn rheolaidd a manwl i'r Aelodau ar ei sefyllfa ariannol, ond nid yw'r rhain wedi gallu effeithio ar ei sefyllfa ariannol.

### Cyngor Gwynedd

Bu cynnydd sylweddol yn y nifer o adrannau'r Cyngor sydd yn gorwario yn y ddwy flwyddyn ariannol ddiwethaf, a mae wedi datblygu trefniadau i adolygu ei gyllidebau. Nid yw eto i nodi sut y bydd yn mynd i'r afael â bylchau cyllid yn y dyfodol.

- Nid yw'r Cyngor wedi gweithredu strategaeth hirdymor eto i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol.
- Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn adnabod bylchau ariannol tebygol y bydd yn ei wynebu dros y tair blynedd nesaf. Fodd bynnag, mae angen iddo ddatblygu a ffurfioli trefniadau i oruchwylio ei gynaliadwyedd hir dymor - gan gynnwys cynnydd wrth fynd i'r afael â'i fwlch cyllido rhagamcanol.

### Cyngor Sir Ynys Môn

Mae gan y Cyngor drefniadau da i ymateb i heriau ariannol yn y tymor byr a chanolig, ond nid yw wedi ffurfioli'r broses o gynllunio a goruchwylio ei gynaliadwyedd ariannol tymor hwy.

- nid yw'r Cyngor wedi ffurfioli strategaeth ar gyfer ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor.
- mae'r Cyngor yn deall ei sefyllfa ariannol dros y tymor byr a chanolig ac mae ganddo hanes o reoli pwysau cyllidebol allweddol ac mae wedi darparu gwasanaethau yn unol â'i gyllideb ym mhob un o'r pum mlynedd ddiwethaf.
- mae gan y Cyngor drefniadau i gefnogi goruchwyliaeth reolaidd ar ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor byr a chanolig. Fodd bynnag, mae angen iddo ddatblygu a ffurfioli trefniadau i gefnogi goruchwyliaeth ar ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor.

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Mae risgiau sylweddol i gynaliadwyedd ariannol y Cyngor gan nad oes ganddo gynllun ar hyn o bryd i fynd i'r afael â'i fwlch cyllido tymor canolig ac nad oes ganddo ddull hirdymor o wella ei gynaliadwyedd ariannol.

Canfuom hyn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor yn parhau i gymryd ymagwedd tymor byr tuag at fynd i'r afael â'i sefyllfa ariannol ac nad oes ganddo allu ar lefel uwch swyddog i ddatblygu dull hirdymor o wella ei gynaliadwyedd ariannol.
- mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'i bwysau gwasanaeth a modelau tybiaethau rhesymol i lywio ei gyllideb, ond nid yw'n addasu ei ragdybiaethau dros y tymor canolig a allai effeithio ar gywirdeb y bwlch cyllidebol a nodwyd.
- ceir adroddiadau monitro cyllideb rheolaidd i uwch swyddogion ac uwch aelodau, ond nid yw'r Cyngor yn adrodd ar gyflawni ei arbedion a heb ddull ariannol tymor hir ni all fonitro nac adrodd ar ei effaith.

## Cyngor Sir Fynwy

Er bod y Cyngor yn datblygu dull tymor hwy o gynllunio ariannol, nid yw eto i nodi sut y bydd yn cau ei fwlch cyllido yn y dyfodol. O ystyried ei lefelau cronfeydd wrth gefn isel, bydd angen i'r Cyngor weithio'n gyflym i weithredu ei strategaeth ariannol a chryfhau ei wytnwch ariannol.

Canfuom hyn am y rhesymau canlynol:

- er bod strategaeth ariannol newydd y Cyngor yn dangos ei ymrwymiad i gryfhau cynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig, ar hyn o bryd nid oes ganddi gynlluniau cadarn i gau ei fwlch cyllido a nodwyd.
- mae gan y Cyngor ddealltwriaeth glir o'i sefyllfa ariannol ac mae'n cydnabod yr angen i gryfhau ei ddefnydd o ddata er mwyn deall a lliniaru pwysau cost tymor hwy yn well.
- mae trefniadau adrodd y Cyngor yn cefnogi goruchwyliaeth glir a rheolaidd o'i sefyllfa ariannol bresennol, ond mae adrodd ar effaith hirdymor penderfyniadau ariannol yn llai datblygedig.

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Mae gan y Cyngor drefniadau ar waith i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol yn y tymor byr ond nad oes ganddo strategaeth ariannol hirdymor wedi'i dogfennu i gefnogi newid mwy trawsnewidiol a llywio penderfyniadau gwariant Aelodau yn y dyfodol.

Canfuom hyn am y rhesymau canlynol:

- nid oes gan y Cyngor strategaeth ariannol i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor hwy.
- mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'i sefyllfa ariannol.
- mae trefniadau adrodd ariannol y Cyngor yn cefnogi goruchwyliaeth reolaidd o'i sefyllfa gyllidebol yn ystod y flwyddyn ond nid ei gynaliadwyedd ariannol yn y tymor hwy.

### Cyngor Dinas Casnewydd

Mae gan Gyngor Dinas Casnewydd drefniadau ariannol cadarn i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol, gan gynnwys cynllun trawsnewid sy'n datblygu a threfniadau goruchwylio effeithiol, ond nid yw'r Cyngor wedi nodi'n llawn sut y bydd yn cau ei fwlch cyllideb dros y tymor canolig a'r hirdymor.

Canfuom hyn am y rhesymau canlynol:

- nid oes gan y Cyngor ddull hirdymor sydd wedi ei ddatblygu'n llawn i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol. Ond mae trefniadau cadarn i reoli ei sefyllfa ariannol tymor byr.
- mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'i sefyllfa ariannol cyfredol a'r risgiau allweddol i'w gynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.
- mae trefniadau adrodd y Cyngor yn cefnogi'r broses o oruchwylio yn rheolaidd ei sefyllfa a'i risgiau ariannol. Mae'r rhain yn darparu sylfaen dda ar gyfer goruchwylio a chraffu ar y cynllun er mwyn galluogi cynaliadwyedd ariannol hirdymor y Cyngor wrth iddo ddatblygu.

### Cyngor Sir Penfro

Mae gan y Cyngor drefniadau ar waith i gefnogi ei sefyllfa ariannol yn y tymor byr ond nad oes ganddo gynllun tymor hwy i gau ei fwlch cyllido a nodwyd.

Canfuom hyn am y rhesymau canlynol:

- nid oes gan y Cyngor ddull strategol tymor hwy i sicrhau ei gynaliadwyedd ariannol a chau ei fwlch cyllido a nodwyd.
- mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'i sefyllfa ariannol ond mae gorwariant mewn adrannau gwasanaethau allweddol ers 2023 yn herio ei gynaliadwyedd ariannol.
- mae trefniadau adrodd ariannol y Cyngor yn cefnogi goruchwyliaeth reolaidd o'i swyddi cyllideb ac arbedion yn ystod y flwyddyn ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei gyllid MTFP.

### Cyngor Sir Powys

Nid yw'r Cyngor wedi mabwysiadu dull hirdymor eto o sicrhau ei gynaliadwyedd ariannol, ond mae'n datblygu un.

Canfuom hyn am y rhesymau canlynol:

- nid yw'r Cyngor wedi mabwysiadu dull hirdymor o sicrhau ei gynaliadwyedd ariannol eto, ond mae wrthi'n datblygu un. Mae'r Cyngor yn cwblhau dull trawsnewid strategol hirdymor i sicrhau ei gynaliadwyedd ariannol a chau'r bwlch yn ei gyllid a adnabuwyd.
- mae dealltwriaeth y Cyngor am ei her ariannol yn y dyfodol yn seiliedig ar dybiaethau rhesymol a dealltwriaeth ddatblygedig am ei bwysau a'i risgiau yn y tymor byr a chanolig.
- mae trefniadau adrodd y Cyngor yn ategu goruchwyliaeth eglur a rheolaidd ar ei sefyllfa ariannol bresennol, ond nid yw'n adrodd yn benodol ar effaith ei strategaeth ariannol ar ei amcanion corfforaethol nac ar gymunedau lleol.

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Mae gan y Cyngor drefniadau priodol i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol sy'n darparu llwyfan i fynd i'r afael â heriau cyllideb tymor hwy.

Canfuom hyn am y rhesymau canlynol:

- mae gan y Cyngor drefniadau clir i reoli ei sefyllfa ariannol yn y tymor byr ac mae'n datblygu rhaglenni trawsnewid i fynd i'r afael â phwysau costau cylchol, ond nid yw wedi modelu'r effaith ar y cyd y bydd y rhaglenni hyn yn ei chael ar ei fwlch cyllideb dros y tymor canolig i'r tymor hir.
- mae dull y Cyngor yn seiliedig ar ddealltwriaeth dda o'i sefyllfa ariannol a'r ffactorau sy'n effeithio arno, gan gynnwys pwysau costau cylchol mewn meysydd gwasanaeth penodol.
- mae'r Cyngor yn darparu adroddiadau rheolaidd i aelodau i'w galluogi i ddeall ei sefyllfa ariannol. Fodd bynnag, nid yw dull adrodd y Cyngor yn rhoi golwg glir i'r aelodau o'r effaith y mae pob penderfyniad cyllidebol wedi'i chael ar wasanaethau, cymunedau lleol a chyflawni amcanion corfforaethol.

### Cyngor Dinas a Sir Abertawe

Mae gan y Cyngor drefniadau rhesymol i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol, ond mae gwendidau wrth gyflawni a monitro'r rhaglen arbedion i gefnogi'r rhain.

Canfuom hyn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor yn dechrau datblygu dull hirdymor o wella cynaliadwyedd ariannol drwy ei raglen drawsnewid, gyda chefnogaeth ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig, ond mae'r cynnydd sy'n cyflawni arbedion gofynnol wedi bod yn arafach na'r disgwyl, gan gyflwyno risgiau i'r Cyngor.
- mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'i sefyllfa ariannol tymor canolig, ond mae'r defnydd o gronfeydd wrth gefn mewn ymateb i orwariant gwasanaethau a risgiau o amgylch cyllido cyfalaf yn gwanhau ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor.
- mae gan y Cyngor drefniadau i fonitro ei sefyllfa ariannol yn rheolaidd, ond nid yw'n adrodd am gynnydd gydag arbedion unigol nac yn nodi'n llawn effaith cynigion arbedion i alluogi goruchwyliaeth effeithiol o'i gynaliadwyedd ariannol.

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Mae gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol a'i fod yn canolbwyntio ar ddatblygu a gweithredu camau gweithredu a fydd yn cynhyrchu digon o arbedion i fynd i'r afael â'i fwlch cyllido cyllideb a nodwyd mewn modd amserol a chynaliadwy.

Canfuom hyn am y rhesymau canlynol:

- mae gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith, gyda'i fwlch cyllido a nodwyd yn y tymor byr i'r tymor canolig yn cael sylw gan y defnydd strategol o gronfeydd wrth gefn a mesurau effeithlonrwydd, a gyda chamau gweithredu yn cael eu datblygu i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol tymor hwy.
- mae strategaeth ariannol y Cyngor yn cael ei chefnogi gan ddealltwriaeth glir o'i sefyllfa ariannol tymor byr i ganolig, er bod rhywfaint o ansicrwydd dros y tymor hwy.
- mae'r Cyngor yn adrodd ei sefyllfa ariannol yn rheolaidd, gan alluogi goruchwyliaeth gan swyddogion ac aelodau, ac mae'r Cyngor yn cael cyfle i ystyried ac adrodd ar effaith ei strategaeth ariannol ar gymunedau drwy ei gynllun cyflawni blynyddol.

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg

Er bod ganddo drefniadau ar gyfer y tymor byr a chanolig, nid oes gan y Cyngor gynllun tymor hir ac asesiadau rheolaidd o effaith penderfyniadau i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol hirdymor

Canfuom hyn am y rhesymau canlynol:

- mae gan y Cyngor drefniadau ar waith i reoli ei wytnwch ariannol yn y tymor byr i'r tymor canolig, ond mae ei ddull gweithredu tymor hwy yn llai sicr oherwydd ei fod ar gam cynnar yn ei agenda drawsnewid.
- er bod y Cyngor yn deall ei sefyllfa ariannol, mae sylfaen dystiolaeth gyfyngedig a hanes cymysg o gyflawni arbedion yn golygu y gallai'r ddealltwriaeth hon fod yn gyfyngedig o ran dyfnder a chywirdeb.
- mae gan y Cyngor drefniadau clir ar gyfer adrodd ar ei sefyllfa ariannol, ond nid yw hyn yn cynnwys dealltwriaeth o effaith cyflawni ei amcanion na sut mae'n effeithio ar y tymor hwy.

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Mae'r Cyngor wedi nodi pwysau ariannol sylweddol ac nad oes ganddo gynllun a gytunwyd i lenwi'r bwlch cyllid eto.

Canfuom hyn am y rhesymau canlynol:

- er bod y Cyngor yn eglur ynghylch maint a brys ei heriau ariannol ac yn datblygu rhaglen rheoli newid i gydlynu ymagwedd strategol at drawsnewid, nid oes ganddo gynllun eto ar gyfer arbedion digonol i sicrhau ei gynaliadwyedd ariannol tymor canolig.
- mae gan y Cyngor drefniadau eglur ar gyfer rheoli ei gyllideb ac arbedion ariannol.

# Atodiadau

1 Ymagwedd a dulliau archwilio

# 1 Ymagwedd a dulliau archwilio

## Amcanion archwilio

Drwy'r crynodeb cenedlaethol hwn a'n hadroddiadau lleol, ein hamcanion oedd:

- darparu sicrwydd bod gan gynghorau drefniadau priodol i ategu eu cynaliadwyedd ariannol.
- esbonio sut y mae cynghorau'n ymdopi gydag adnoddau cyfyngedig ac i ba raddau y maent yn asesu effaith eu penderfyniadau ar ddarparu gwasanaethau a dinasyddion, yn awr ac yn y dyfodol.
- gan ddefnyddio allbwn y crynodeb cenedlaethol, egluro i ba raddau y mae cynghorau'n ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy fel rhan o'u prosesau cynllunio ariannol a phenderfynu.
- gan ddefnyddio allbwn y crynodeb cenedlaethol, ysbrydoli gwelliant trwy nodi enghreifftiau o arfer da wrth reoli a hybu cynaliadwyedd ariannol lle y bo'n briodol.

## Ymagwedd a chwmpas

Fe ddefnyddiom ni ddull a oedd yn canolbwyntio ar systemau i archwilio trefniadau i ategu cynaliadwyedd ariannol yn ein hadroddiadau lleol. Ar gyfer ein crynodeb cenedlaethol, fe wnaethom gyfuno hyn ag ymagwedd a oedd yn canolbwyntio ar broblemau i archwilio materion a'u mynychder.

Wrth baratoi ein hymagwedd, fe wnaethom gwrdd â Chymdeithas Trysoryddion Cymru a Llywodraeth Cymru. Fe gadwom ni ein hannibyniaeth trwy gydol ein gwaith.

Fe gwblhaom ni ein gwaith maes yn lleol rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2024, a oleuodd ein proses i gasglu tystiolaeth genedlaethol dros yr un cyfnod ac ymhellach i mewn i fis Awst.

Yn lleol, fe wnaethom adolygu dull strategol pob cyngor o ategu ei gynaliadwyedd ariannol, ei ddealltwriaeth am ei sefyllfa ariannol gyfredol, a'i drefniadau ar gyfer adrodd ac arfer goruchwyliaeth ar ei gynaliadwyedd ariannol. Fe wnaethom adolygu'r trefniadau sydd gan bob cyngor i ategu ei gynaliadwyedd ariannol. Ni wnaethom adolygu rheolaeth ariannol ehangach pob cyngor na'u penderfyniadau ariannol unigol.

Roedd ein meini prawf archwilio'n seiliedig ar ein gwybodaeth archwilio gronnus ac yn tynnu ar gyhoeddiadau a gynhyrchwyd gan CIPFA.

## Dulliau

Wrth baratoi'r crynodeb cenedlaethol hwn, fe wnaethom grynhoi tystiolaeth a chanfyddiadau o'n hadroddiadau lleol a ddefnyddiodd y dulliau canlynol:

- cyfweliadau – ym mhob cyngor fe wnaethom gyfweld â'r canlynol:
  - Prif Weithredwr
  - Swyddog Adran 151
  - swyddog arweiniol ar gyfer trawsnewid
  - arweinydd y cyngor
  - arweinydd y cabinet dros gyllid
- adolygu dogfennau – fe wnaethom adolygu dogfennau o bob cyngor gan gynnwys pob Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC), strategaethau ariannol, adroddiadau ariannol, a chofnodion pwyllgorau.
- dadansoddi data – fe wnaethom ddadansoddi data ariannol, yn ddata sydd ar gael yn gyhoeddus ac yn ddata a ddarparwyd gan gynghorau. Lle cyflwynir ffigurau ariannol mewn termau real, rydym wedi defnyddio ddatchwyddydd Mehefin 2024 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF i gyfrif am effaith chwyddiant.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.